Independent Monitoring Boards

# Adroddiad Blynyddol Cenedlaethol 2024

## Carchardai oedolion, sefydliadau troseddwyr ifanc a chanolfannau cadw mewnfudwyr

Mehefin 2025



national preventive mechanism

## Cynnwys

Cyflwyniad gan Gadeirydd Cenedlaethol y Bwrdd Monitro Annibynnol 3

Gwybodaeth am Fyrddau Monitro Annibynnol a'r adroddiad hwn 5

Effaith y Bwrdd Monitro Annibynnol yn 2024 7

**Canfyddiadau'r Bwrdd Monitro Annibynnol 7**

1. Carchardai oedolion 7
2. Sefydliadau Troseddwyr Ifanc 20
3. Canolfannau cadw mewnfudwyr 26

**ATODIADAU 38**

1. Ceisiadau 38
2. Aelodaeth 40

## Cyflwyniad gan y Cadeirydd Cenedlaethol

Y tu mewn i bob carchar, sefydliad troseddwyr ifanc, canolfan symud ymaith (IRC) a chyfleuster cadw tymor byr (STHF), mae Bwrdd Monitro Annibynnol (IMB), a benodir gan weinidogion i fonitro ac adrodd ar driniaeth ac amodau'r rheini sy'n cael eu cadw. Yn ystod 2024, cynhaliodd 132 o Fyrddau Monitro Annibynnol (IMBs) dros 35,500 o ymweliadau yn y lleoliadau cadw hyn.

Roedd 2024 yn flwyddyn o ansicrwydd a newidiadau. Daeth y newid o ran llywodraeth hanner ffordd drwy'r flwyddyn â llawer o newidiadau polisi sylweddol yn ei sgil, gan gynnwys dileu cynlluniau i rentu celloedd carchar dramor, canslo cynllun Lloches Rwanda, cyflwyno cynlluniau rhyddhau cynnar newydd, a'r penderfyniad mwy diweddar i roi terfyn ar gadw merched mewn sefydliadau troseddwyr ifanc (STIau).

Mae IMBs wedi gweld rhai gwelliannau y mae mawr eu hangen o ran lefelau staffio a chyfundrefnau, sydd â'r potensial i newid bywydau pobl sy'n cael eu cadw'n gaeth yn ddramatig, ac er gwell. Fodd bynnag, mae perygl y bydd pob cam ymlaen yn cael ei wrthdroi. Dywedodd IMBs, yn enwedig yn yr ystâd carchardai i oedolion, fod canslo gweithgareddau pwrpasol ac amser allan o'r ystafell yn rhy gyffredin o lawer. Er bod natur anrhagweladwy cansladau ychydig yn well na threfniadau rhagweladwy a chyfyngedig iawn blynyddoedd blaenorol, mae hyn yn tanseilio ymddiriedaeth carcharorion yng ngallu staff i gyflawni'r hyn maen nhw'n ei addo ac, o ganlyniad, sefydlogrwydd carchardai'n gyffredinol. Roedd y cyfuniad o boblogaethau uchel a'r gofynion eithafol ar staff - a oedd, mewn rhai carchardai, yn gorfod ymateb i argyfyngau meddygol neu argyfyngau iechyd meddwl sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn ddyddiol - yn golygu bod staff weithiau'n cael trafferth cyflawni hanfodion y gyfundrefn i garcharorion. Roedd cynlluniau rhyddhau cynnar yn achosi pryder ymhlith poblogaeth y carchar, ac yn codi cwestiynau ynghylch a oedd y carcharorion hyn yn cael yr hyn yr oedd ei angen arnynt i ailymuno â'r gymuned. Mae'n amlwg erbyn hyn nad oes unrhyw ostyngiadau tymor hir wedi'u cyflawni o ran y boblogaeth, a bydd yn rhaid i garchardai oroesi mwy fyth o gynlluniau i fynd i'r afael â'r argyfwng poblogaeth; a bydd yr IMBs yn gwylio hyn yn ofalus.

Ochr yn ochr â'r newidiadau niferus a welwyd yn yr ystad carchardai a mewnfudo, roedd llawer gormod o feysydd lle gorfodwyd Byrddau i adrodd am yr un materion ac mewn blynyddoedd blaenorol. Roedd cyflwr ffisegol rhannau helaeth o'r ystad carchardai, a rhannau o'r ystad cadw mewnfudwyr, yn dal yn arswydus, gyda phobl sy'n cael eu cadw'n gaeth yn wynebu amodau byw annerbyniol a phrinder cyflenwadau hanfodol. Cynyddodd trais a’r defnydd o gyffuriau ar draws llawer o garchardai, ac achosodd y pwysau o ran poblogaeth i hyn lifo i gyfleusterau cadw mewnfudwyr hefyd. O dan Operation Safeguard, roedd niferoedd uwch o gyn-garcharorion yn cael eu cadw mewn canolfannau symud ymaith (IRCs), gyda chynnydd yn sgil hynny yn y defnydd o gyffuriau a thrais. Nid oedd gan staff carchar dibrofiad yr hyder na'r wybodaeth i orfodi trefn a chefnogi carcharorion. Ni fydd cyflwyno mesurau amddiffynnol fel chwistrelli llonyddu PAVA yn mynd i'r afael â'r achosion sylfaenol hyn o drais ac anhrefn, ac mae'r IMBs yn pryderu am benderfyniad diweddar y llywodraeth i gyflwyno chwistrelli llonyddu PAVA i'r ystad ieuenctid, er gwaethaf yr anghymesuredd brawychus a welwyd yn nefnydd swyddogion o rym.

Yn olaf, roedd cymorth ailsefydlu yn dal yn is o lawer na'r lefelau derbyniol mewn llawer o garchardai. Oni bai fod gan garcharorion lety diogel a sefydlog, cysylltiadau â chymorth cymunedol, a rhagolygon rhesymol o ran cyflogaeth ac ailintegreiddio, bydd yr effaith drws tro yn parhau i lesteirio ymdrechion y llywodraeth i leihau a sefydlogi poblogaeth carchardai.

Parhawyd i gadw'r rheini y mae'r amgylcheddau hyn yn gwbl anaddas ar eu cyfer, gyda chanlyniadau dirdynnol. Roedd IMBs ar draws pob ystad yn gweld pobl â salwch meddwl difrifol ac anghenion cymhleth eraill yn cael eu cadw mewn unedau gwahanu am gannoedd o ddiwrnodau, wrth aros i gael eu trosglwyddo i gyfleusterau iechyd meddwl addas. Gan eu bod yn cael eu hamddifadu o'r gofal arbenigol sydd ei angen arnynt, gall lles y bobl agored i niwed hyn ddirywio'n sylweddol yn yr amgylchiadau hyn. Adroddodd IMBs am y trallod difrifol a wynebir gan bobl a oedd yn cael eu cadw mewn IRCs am gyfnodau rhy hir, yn aml oherwydd bod oedi'n eu hatal rhag cael gafael ar lety mechnïaeth neu ddychwelyd yn wirfoddol i'w gwledydd gwreiddiol.

Mae peryglon cysylltiedig â hunanfodlonrwydd yn dod yn sgil parhad y problemau hyn. Mae IMBs yn dal i weld arwyddion bod staff yn derbyn sefyllfaoedd annerbyniol. Dywedodd carcharorion wrth aelodau'r IMBs nad oedd diben cwyno am amodau ffisegol erchyll, fel llifogydd, fermin a namau i systemau gwaredu carthion, oherwydd ni fyddai dim yn cael ei wneud yn eu cylch. Roedd diffyg ymddiriedaeth yn aml o ran prosesau cwyno, yn enwedig y rheini a oedd yn targedu gwahaniaethu. Yn yr un modd, yn yr ystad cadw mewnfudwyr, dywedodd pobl sy'n cael eu cadw'n gaeth wrth yr IMBs eu bod yn ofni cwyno am amodau'r canolfannau rhag ofn i hynny effeithio ar eu hachosion mewnfudo. Mae'n destun pryder mawr fod IMBs mewn canolfannau cadw mewnfudwyr wedi canfod bod rhai staff wedi dod i arfer â gweld pobl mewn trallod difrifol, ac efallai wedi colli'r gallu i gydymdeimlo â'r dioddefwyr. Mewn STIau, gwelodd yr IMBs arwyddion bod y disgwyliadau o ran amser allan o'r ystafell wedi dirywio cymaint fel bod staff yn ystyried bod yr isafswm oriau y tu allan i'r ystafell yn 'darged' i anelu tuag ato, yn hytrach na'r hyn ydoedd: isafswm a oedd hyd yn oed pe bai'n cael ei ddarparu, yn dal i beryglu siawns plant o adsefydlu.

Mae pwysigrwydd datrys y materion hirsefydlog hyn yn cynyddu gyda'r cyfnod amser y maent ar waith, a nifer y bobl yr effeithir ar eu bywydau - ni ellir eu normaleiddio. Bydd IMBs yn parhau i ddefnyddio eu mewnwelediadau unigryw i dynnu sylw at y methiannau hyn gyda'r brys maen nhw'n ei haeddu.

**Elisabeth Davies** **Mehefin 2025**
Cadeirydd Cenedlaethol yr IMB

# Gwybodaeth am Fyrddau Monitro Annibynnol a'r adroddiad hwn

Mae Byrddau Monitro Annibynnol (IMBs) yn monitro ac yn adrodd ar amodau a thriniaeth y rheini sy'n cael eu cadw ym mhob carchar a sefydliad troseddwyr ifanc (STI) yng Nghymru a Lloegr, yn ogystal â phob cyfleuster cadw mewnfudwyr ledled y DU a symudiadau ymaith tramor. Mae aelodau IMB yn benodeion cyhoeddus di-dâl.

Mae IMBs yn rhan o Fecanwaith Ataliol Cenedlaethol (NPM) y DU.

## Ein cylch gwaith

Mae ein cylch gwaith wedi'i nodi'n bennaf yn Neddf Carchardai 1952 a Deddf Mewnfudo a Lloches 1999. Mae ein swyddogaethau a'n pwerau wedi'u diffinio ymhellach yn y Rheolau Carchardai, Rheolau Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, Rheolau Canolfannau Cadw a Rheolau Cyfleusterau Aros Tymor Byr.

## Ein dull monitro

Nodir ein dull gweithredu yn y Fframwaith Monitro Cenedlaethol y cytunwyd arno gan weinidogion.[1]

Mae'r gwaith monitro'n ffocysu ar y canlyniadau i garcharorion a phobl sy'n cael eu cadw'n gaeth. Mae IMBs yn asesu canlyniadau yn y meysydd canlynol:

- Diogelwch
- Triniaeth deg a dyngarol
- Iechyd a llesiant
- Addysg a hyfforddiant (IMBs STIau yn unig)
- Cynnydd a rhyddhau (gan gynnwys paratoi ar gyfer dychwelyd neu ryddhau mewn cyfleusterau cadw mewnfudwyr)

## Yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau'r IMB rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr 2024.[2]

# Effaith y Bwrdd Monitro Annibynnol yn 2024

Cynhaliodd **132** o Fyrddau, a oedd yn cynnwys **1,186** o aelodau, **35,865** o ymweliadau rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr 2024.[3]

Gall IMBs wneud gwahaniaeth i unigolion sy'n cael eu cadw'n gaeath, i'r sefydliadau maen nhw'n eu monitro ac i'r system garchardai a chadw mewnfudwyr ehangach. Mae enghreifftiau o'r effaith leol wedi'u cynnwys drwy gydol yr adroddiad hwn, ac mae manylion o effaith ehangach IMBs ar y system wedi'u cynnwys isod.

## Adrodd

Yn 2024, fe wnaethom gyhoeddi **127** o adroddiadau blynyddol:

**Carchardai oedolion**

- 97 adroddiad ar garchardai i ddynion
- 11 adroddiad ar garchardai i fenywod

**Sefydliadau Troseddwyr Ifanc (STIau)**

- 5 adroddiad STI

**Canolfannau cadw mewnfudwyr**

- 4 adroddiad IRC
- 8 adroddiad STHF
- 1 adroddiad hediad siarter

Mae canfyddiadau mwy diweddar y Bwrdd yn cael eu coladu'n rheolaidd a'u defnyddio ar gyfer effaith ranbarthol, swyddogaethol a chenedlaethol drwy ymatebion i ymgynghoriadau, tystiolaeth a ddarperir i bwyllgorau Seneddol, a thrwy adroddiadau monitro thematig cenedlaethol. Cyhoeddodd yr IMB yr adroddiadau cenedlaethol canlynol yn 2024:

- Segregation of men with mental health needs
- The 2023 national annual report for IMBs in the prison and immigration detention estate
- Chaos in the crisis – the damaging loss of prisoners' personal property
- Breaking point: the impact of a crumbling prison estate on prisoners

## Ymgynghoriadau

Drwy gydol y flwyddyn, fe wnaethom ymateb i amrywiaeth o ymgynghoriadau sy'n cael eu cynnal gan gyrff hawliau dynol, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS), GIG Lloegr a'r Swyddfa Gartref. Roedd hyn yn cynnwys: marwolaethau yn y ddalfa, fframwaith polisi diogelu'r cyhoedd, merched yn y ddalfa, y strategaeth plant a phobl ifanc, iechyd a chyfiawnder GIG Lloegr, rhyddhau unigolion o'r ddalfa, atal cymdeithasu yn y ddalfa, a fframwaith polisi mewnfudwyr sy'n cael eu cadw yn y carchar.

# Canfyddiadau'r Bwrdd Monitro Annibynnol

## 1. Carchardai oedolion

**Y prif ganfyddiadau**

- Parhaodd yr argyfwng capasiti carchardai i gael effaith niweidiol ar yr amodau yr oedd carcharorion yn byw ynddynt, a'u cyfleoedd i wneud cynnydd, gyda charcharorion yn cael eu cadw mewn amgylcheddau gorlawn ac anaddas yn aml.
- Roedd y cynnydd mewn lefelau hunan-niweidio yn peri pryder difrifol i Fyrddau, ac nid oedd y gefnogaeth i'r rheini a oedd yn niweidio eu hunain bob amser yn ddigonol.
- Defnyddiwyd grym yn anghymesur ac nid oedd llawer o graffu arno.
- Roedd defnyddio cyffuriau yn endemig ar draws yr ystad carchardai, ac roedd y pryderon iechyd, y dyledion a'r trais a oedd yn codi o'r sefyllfa yn bygwth sefydlogrwydd llawer o garchardai.
- Roedd adeiledd dirywiol ystad y carchardai, a'r oedi o ran gwneud gwaith cynnal a chadw a'u hadnewyddu wedi arwain at amodau byw annerbyniol.
- Parhaodd diffyg profiad ac absenoldeb staff i gael effaith andwyol ar weithrediadau o ddydd i ddydd.
- Collwyd cyfleoedd i wella'r berthynas rhwng staff a charcharorion drwy'r cynllun gwaith allweddol.
- Roedd carcharorion o leiafrifoedd ethnig a chrefyddau yn cael eu trin yn annheg ac roedd diffyg ymddiriedaeth cyffredinol o ran y broses adrodd ar wahaniaethu, yn aml gyda rheswm da.
- Roedd eiddo coll yn arwain at ganlyniadau difrifol i garcharorion, gydag un goes brosthetig carcharor yn mynd ar goll am dros flwyddyn.
- Yn aml, nid oedd carcharorion ag anghenion cymhleth, fel salwch meddwl difrifol neu ddementia, yn cael gofal a chymorth priodol, gyda rhai canlyniadau brawychus.
- Roedd amser allan o'r gell yn parhau i fod yn gyfyngedig ac yn anrhagweladwy, yn aml o ganlyniad i brinder staff.
- Roedd cymorth prawf ac ailsefydlu yn parhau i fod yn gyfyngedig yn yr ystad gaeedig, gan gyfrannu mewn rhai achosion at 'effaith drws tro' o garcharorion yn cael eu hadalw yn fuan ar ôl cael eu rhyddhau.

### Heriau o ran poblogaeth

Roedd pwysau o ran poblogaeth yn parhau i fod yn bryder allweddol i Fyrddau, gan effeithio ar bob agwedd ar fywyd yn y carchar. Roedd Byrddau'n parhau i dynnu sylw at yr amodau heriol, ac weithiau digalon, a oedd yn codi pan oedd celloedd unigol yn cael eu 'dyblu'. Adroddodd rhai Byrddau am gelloedd dwbl yn cael eu trosi'n gelloedd triphlyg, neu gelloedd triphlyg yn cael eu troi'n gelloedd i bedwar carcharor. Roedd carcharorion yn y celloedd hyn yn aml yn cael eu gadael heb yr hanfodion angenrheidiol i gynnal eu hurddas neu ansawdd eu bywydau, fel llenni preifatrwydd toiled (fel yn Bronzefield), neu ddodrefn safonol fel byrddau a chadeiriau (fel yng Ngwersyll Môr y Gogledd).

Cafodd yr argyfwng capasiti effaith negyddol ar ddiogelwch carchardai, gan fod staff yn cael trafferth ymdopi â'r niferoedd, ac nid oedd modd lleoli carcharorion yn ddiogel ar bob achlysur. Fe wnaeth y pwysau hwn erydu lefelau gwedduster, gan nad oedd modd peidio â defnyddio celloedd, unedau a chyfleusterau at ddiben gwneud gwaith cynnal a chadw angenrheidiol, ac fe wnaeth hynny arwain at ormod o garcharorion yn treulio amser wedi'u cloi yn eu celloedd pan nad oedd digon o leoedd ar gyfer gweithgarwch pwrpasol.

Fe gafodd yr ymdrechion i leihau'r boblogaeth effeithiau cymysg. Adroddodd rhai Byrddau fod y lleoedd sy'n cael eu creu gan gynlluniau rhyddhau cynnar, gan gynnwys y ddeddfwriaeth SDS40 ddiweddar, wedi cael eu llenwi'n gyflym eto, ac roedd gan eraill bryderon ynghylch paratoadau gwael ar gyfer rhyddhau, a oedd yn aml yn arwain at adalw carcharorion.[4] Fodd bynnag, adroddodd Byrddau hefyd ar gyfleoedd a oedd yn cael eu creu gan ostyngiadau dros dro yn y boblogaeth, fel yn Thorn Cross lle'r oedd hyn yn golygu bod modd gwneud rhywfaint o waith cynnal a chadw angenrheidiol.

Y mater allweddol ar ddiwedd 2024 oedd bod y mannau a gafodd eu creu gan SDS40 yn bennaf yn yr ystad agored ac mewn carchardai hyfforddi categori C. Roedd hyn yn golygu bod carchardai derbyn a charchardai diogelwch uchel yn dal i gael trafferth, ac roedd llawer o Fyrddau a oedd yn monitro carchardai agored yn amheus ynghylch effaith y gostyngiad mewn carcharorion ac effaith ansefydlog posibl nifer fawr o garcharorion newydd yn y dyfodol.

## 1.1 Diogelwch

**Cododd lefelau hunan-niweidio, ac roedd y cymorth a gynigiwyd yn aml yn annigonol**

Roedd hunan-niweidio yn parhau i fod yn faes pryder difrifol i Fyrddau, gydag arsylwadau monitro yn adlewyrchu lefelau cynyddol ar draws yr ystad carchardai. Parhaodd 'safleoedd clwstwr' o farwolaethau hunanachosedig ddod i'r amlwg, gan gynnwys yn Wymott, carchar y menywod Styal, a Leeds. Yn arwyddocaol, dynodwyd Leeds yn safle clwstwr yn 2023, a pharhaodd i fod yn safle clwstwr trwy gydol 2024, sy'n golygu nad yw'r carchar wedi gallu mynd i'r afael â'r mater er gwaethaf mwy o graffu. Roedd yr ystad diogelwch uchel hirdymor (LTHSE) hefyd yn cael ei gorgynrychioli yn y maes hwn, gyda Belmarsh, Garth a Frankland i gyd yn safleoedd clwstwr dynodedig.

Cododd y Byrddau bryderon parhaus am y broses ACCT (Asesu, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm), a ddefnyddir i reoli'r rheini y nodwyd eu bod mewn perygl o hunanladdiad neu hunan-niweidio, ac roedd rhai'n teimlo nad oedd yn addas i'r diben. Nododd nifer o Fyrddau nad oedd arsylwadau, adolygiadau na nodiadau ACCT yn cael eu cynnal yn ddigonol. Er enghraifft, roedd 78% o ddogfennau ACCT a archwiliwyd gan y Bwrdd yn Durham yn cynnwys hepgoriadau, fel diffyg goruchwyliaeth dyddiol neu archwiliadau staff nos.

Roedd hunan-niweidio yn fater arbennig o ddifrifol yn ystad y menywod. Adroddodd llawer o Fyrddau fod nifer y menywod sâl iawn a oedd yn ceisio niweidio eu hunain dro ar ôl tro yn golygu bod angen llawer iawn o adnoddau staff i'w cadw'n ddiogel, ac roedd ymyriadau gan swyddogion yn arwain at ymosodiadau rheolaidd ar staff.

Gallai nifer cymharol fach o fenywod ag anghenion cymhleth iawn gael effaith anghymesur ar weithrediad carchar cyfan, gyda Byrddau'n tynnu sylw at y straen a achosir: yn Eastwood Park, roedd amser staff yn cael ei ddominyddu gan ddelio â phroblemau o’r fath, oherwydd y nifer uchel o fenywod ag anghenion cymhleth, gan adael ychydig iawn o amser ar gyfer gweithgareddau arferol neu adsefydlu. Yn yr un modd, nododd IMBs, fel Downview, pan oedd llai o fenywod o'r math hwn yn y carchar, fod y gofod anadlu a gafodd ei greu yn amlwg, gan arwain at berfformiad gwell ar draws y carchar.

**Roedd lefelau trais yn bryder mawr**

Roedd trais ac ymddygiad aflonyddgar yn dal yn rhy uchel ar draws llawer o'r ystad carchardai. Roedd hyn yn aml yn cael ei briodoli i ddyled, a oedd â chysylltiad annatod â'r argyfwng cyffuriau a amlinellir isod. Roedd pwysau poblogaeth hefyd yn ei gwneud yn anodd tawelu amgylcheddau ymfflamychol, gan ei bod yn anodd gwahanu carcharorion sy’n gwrthdaro. Gwariodd rhai carchardai, fel Pentonville, lawer iawn o adnoddau staff ar wahanu carcharorion a threfnu trosglwyddiadau priodol i leihau gwrthdaro. Cafodd carchardai eraill eu hysgwyd gan fewnlifiad o garcharorion o’r tu allan i'r ardal, yn aml ag ymlyniadau gangiau, nad oedd y carchar yn arfer delio â nhw; yn Stoke Heath, er enghraifft, roedd cynnydd mewn carcharorion o’r tu allan i'r ardal yn gysylltiedig â mwy o ddefnydd o rym. Roedd y diffyg celloedd yn golygu nad oedd carcharorion agored i niwed bob amser yn cael eu rhoi ar unedau carcharorion agored i niwed, gan wneud iddynt deimlo'n anniogel, gyda llawer ohonynt yn hunan-ynysu o ganlyniad.

Yn Oakwood, fodd bynnag, cyflwynwyd yr ymgyrch 'Enough' ym mis Tachwedd 2023, gan ddarparu cyfundrefn well a chymhellion eraill i adeiniau a oedd yn parhau i fod yn ddi-drais am gyfnodau estynedig o amser. Cafodd hyn lwyddiant amlwg: ym mis Mawrth 2024, roedd tair adain wedi aros yn rhydd o ddigwyddiadau treisgar am o leiaf 56 diwrnod, ac roedd tair arall wedi gwneud hynny am o leiaf 28 diwrnod.

**Defnyddiwyd grym yn anghymesur, ac nid oedd llawer o graffu arno**

Roedd defnyddio grym yn destun pryder i rai Byrddau, er bod y pryderon hyn yn ymwneud yn gyffredinol â chadw cofnodion a monitro, yn hytrach na gweithredu; dywedodd sawl Bwrdd fod swyddogion yn dal yn amharod i wisgo camerâu corff neu eu troi ymlaen cyn digwyddiadau. Mewn rhai carchardai, roedd swyddogion yn aml yn methu â chwblhau gwaith papur ar ôl digwyddiad yn brydlon, ac mewn eraill nid oedd ôl-drafodaethau gyda charcharorion bob amser yn cael eu cynnal. Roedd yn destun pryder bod rhai Byrddau'n dal i ddweud bod staff dibrofiad yn cael trafferth tawelu digwyddiadau; roedd Byrddau fel Hewell a Chelmsford yn poeni bod diffyg profiad staff yn gyfrifol am gynnydd yn y defnydd o rym. Yn Altcourse, lle'r oedd lefelau trais a defnydd grym yn isel o'u cymharu â charchardai tebyg, roedd y Bwrdd yn priodoli hyn i'r gyfran uchel o staff profiadol. Yn ogystal, dywedodd staff Altcourse wrth aelodau'r Bwrdd eu bod yn teimlo nad oedd angen chwistrelli llonyddu PAVA na batonau yno, gan nad oedd staff profiadol a hyderus yn debygol o fod eu hangen.

Roedd oedolion ifanc yn cael eu gorgynrychioli mewn digwyddiadau defnyddio grym, yn yr un modd â charcharorion niwrowahanol. Yn Brixton, roedd 74% o'r carcharorion a oedd wedi bod yn destun defnydd grym wedi'u cofrestru fel rhai a oedd â rhyw fath o anabledd. Roedd y rhan fwyaf o garchardai wedi mynd ati'n

ofalus i adolygu tueddiadau defnydd grym o ran anghymesuredd, er nad oeddent bob amser yn effeithiol - yn Aylesbury, er bod digwyddiadau defnydd grym wedi cael eu dadansoddi yn ôl nodweddion gwarchodedig, nid oeddent yn cael eu cymharu â dadansoddiad demograffig o boblogaeth y carchar.

Mewn rhai carchardai, roedd anghymesuredd hiliol yn amlwg ac yn peri pryder - yn Elmley, roedd carcharorion du yn llawer mwy tebygol o fod yn destun defnydd grym o'u cymharu â charcharorion gwyn. Yn yr un modd, gwelodd Birmingham wahaniaethau hiliol clir o ran defnydd grym, a barhaodd er gwaethaf amrywiaeth staff y carchar, a chyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol.

**Roedd defnydd cyffuriau yn endemig, gan danseilio sefydlogrwydd yr ystad carchardai cyfan**

Cyffuriau ac eitemau anghyfreithlon oedd y pryder mwyaf cyffredin o ran diogelwch i IMBs, a chododd pryderon Byrddau am gyffuriau yn benodol drwy gydol 2024. Disgrifiodd llawer o Fyrddau lif cyffuriau a oedd yn ymddangos yn anataliadwy i garchardai, er gwaethaf ymdrechion i atal y cyflenwad; ym Mryste, roedd carcharorion yn cael eu dal dan ddylanwad cyffuriau bob dydd. Mewn rhai carchardai, nid oedd modd osgoi effaith cyffuriau: roedd dyled yn arwain at drais a bwlio, ac roedd carcharorion yn aml yn wynebu argyfyngau meddygol, a oedd yn tarfu ymhellach wrth i adnoddau staff gael eu cyfeirio at eu cynorthwyo a darparu hebryngwyr ysbyty.

Parhaodd dronau i fod yn fygythiad sylweddol, yn enwedig yn yr ystad ddiogelwch uchel hirdymor ac yng ngogledd-orllewin Lloegr. Dywedodd Byrddau fel Long Lartin a The Mount fod diffygion mewn mesurau diogelwch, fel ffenestri hen ffasiwn, yn caniatáu i gyffuriau gael eu smyglo i mewn yn haws. Yn Wymott, dywedodd swyddogion wrth y Bwrdd nad oedd profion ar sail amheuaeth yn cael eu cynnal oherwydd prinder staff. Canfuwyd diffygion diogelwch mewn rhannau eraill o'r ystad hefyd; yn Coldingley, er enghraifft, nid oedd teledu cylch cyfyng ar nifer o landins, ac nid oeddent yn cael eu patrolio'n rheolaidd gan staff. Mewn rhai carchardai, roedd gwelliannau bach i fesurau diogelwch wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i nifer yr achosion o gyffuriau - yn Ford, er enghraifft, hanerwyd nifer y cyffuriau a ganfuwyd rhwng chwarter cyntaf a thrydydd chwarter y flwyddyn, ac roedd y Bwrdd yn priodoli hyn i lwyddiant cynlluniau syml, fel gwell diogelwch wrth y giatiau rhwng dau hanner y carchar, a mwy o chwilio.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad oes un datrysiad: dangosodd llawer o adroddiadau Byrddau fod cyflenwyr cyffuriau yn gallu addasu, gyda llwybrau eraill yn agor cyn gynted ag y caewyd un; yn Pentonville, yn dilyn chwilio celloedd yn eang ar yr adain fwyaf, ac arestio swyddog, cynyddodd yr achosion o daflu cyffuriau dros y wal yn sylweddol wrth i garcharorion geisio dod o hyd i lwybrau newydd ar gyfer contraband. Mae hyn yn brawf o bwysigrwydd ymdrechion i leihau'r galw a chefnogi carcharorion i roi'r gorau i ddefnyddio cyffuriau. Mae llwyddiant yr ymdrechion hyn yn cael ei ddadansoddi yn yr adran gofal iechyd.

## 1.2 Triniaeth deg a dyngarol

**Roedd adeiledd dirywiol ystad y carchardai, a'r oedi o ran gwneud gwaith cynnal a chadw, wedi arwain at amodau byw annerbyniol**

Roedd adeiladau a chyfleusterau yn dal yn wael iawn ar draws pob rhanbarth a swyddogaeth.[5]

**Effaith ystad carchardai sy'n dadfeilio ar garcharorion**

Ym mis Tachwedd 2024, cyhoeddodd yr IMB adroddiad thematig cenedlaethol ar ganfyddiadau Byrddau yn y maes hwn, a ganfu’r canlynol:

- Roedd adeiledd dirywiol ystad y carchardai, a'r oedi o ran gwneud gwaith cynnal a chadw a'u hadnewyddu, wedi arwain at broblemau difrifol o ran diogelwch. Roedd y rhain yn cynnwys mwy o debygolrwydd y byddai cyffuriau ac arfau'n cael eu smyglo i garchardai, a phroblemau diogelwch tân sylweddol, fel systemau larwm diffygiol yn Cookham Wood, gallu gwael i wagio carchar Stafford a drysau gwrth-baricêd hen ffasiwn yn Wayland.
- Arweiniodd problemau gwresogi ac awyru, llifogydd a fermin at amgylcheddau byw a oedd yn anghyfforddus, yn anweddus ac, ar adegau, yn annynol. Roedd adroddiadau am garcharorion yn cael eu brathu gan bryfed cop yn Bullingdon, a gan lygoden fawr yn Hollesley Bay.
- Yn Pentonville, cododd y Bwrdd bryderon yn gyson am bla llygod mawr yn y gegin dros gyfnod o 10 mis. Ni chymerodd y carchar na'r darparwr cynnal a chadw unrhyw gamau effeithiol, er gwaethaf pryderon hylendid difrifol fel baw llygod mawr o dan nifer o ddarnau o offer cegin, a deunydd insiwleiddio nenfydau wedi'i gnoi a’i boeri dros offer coginio agored a mannau paratoi bwyd. Uwchgyfeiriodd yr IMB y mater hwn at Gyfarwyddwr Gweithredol Ardal perthnasol HMPPS a Chyfarwyddwr y Grŵp Carchardai, ac wedyn at Wasanaeth Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Islington a'r Gweinidog Carchardai ar y pryd. Caewyd y gegin ddeuddydd yn ddiweddarach.
- Roedd offer golchi dillad ac offer cegin hanfodol yn aml yn anweithredol, ac weithiau roedd carcharorion yn mynd heb fwyd poeth na dillad a dillad gwely glân o ganlyniad.
- Nid oedd llawer o atebolrwydd pan oedd perfformiad darparwyr gwaith cynnal a chadw yn ddiffygiol, ac roedd Llywodraethwyr yn teimlo nad oedd ganddynt ddigon o ymreolaeth i fynd i'r afael â'r problemau dan sylw.
- Hyd yn oed mewn achosion lle'r oedd ymrwymiad clir gan y Gwasanaeth Carchardai i uwchraddio'r ystad ffisegol, cymerodd lawer gormod o amser - blynyddoedd weithiau - i'r gwelliannau hyn gael eu cwblhau. Adroddodd y Byrddau am aneffeithiolrwydd cost eang, gan gynnwys defnyddio mesurau dros dro yn aml, a methiant i wneud gwaith adnewyddu ac atgyweirio.

Yn ystod y broses gyhoeddi, mynegwyd pryderon pellach ynghylch sut yr eir i'r afael â phryderon cynnal a chadw difrifol. Roedd yn ymddangos nad ymchwiliwyd i bryderon iechyd a diogelwch a allai fod yn ddifrifol gyda'r trylwyredd angenrheidiol, ac nad oedd cyfathrebu rhwng carchardai a darparwyr gwasanaethau bob amser yn ddigonol i sicrhau bod gwersi diogelwch yn cael eu dysgu yn sgil digwyddiadau peryglus, fel tanau.

**Roedd yr unedau arwahanu yn anhrefnus ac fel arfer yn llawn**

Roedd Byrddau'n parhau i adrodd am unedau gofal a gwahanu (CSUs) prysur ac o dan straen, lle'r oedd staff dan bwysau enfawr i reoli natur heriol y poblogaethau. Roedd yn aml yn anodd symud carcharorion yn ôl i leoliad arferol, yn enwedig lle'r oedd gan garchardai nifer fawr o unigolion nad oeddent yn cael cysylltu ag eraill (felly gallai fod yn anodd dod o hyd i leoliadau diogel iddynt), neu pan oedd gan garcharorion anghenion arbennig o gymhleth. Roedd pwysau poblogaeth ar yr ystad ac ar draws y swyddogaethau wedi lleihau'r opsiynau ar gyfer rheoli poblogaethau'r CSUs. Yn Full Sutton, nododd y Bwrdd, oherwydd y poblogaethau uchel yn yr LTHSE, ac mewn CSUs mewn carchardai LTHSE, nad oedd modd trosglwyddo carcharorion i sefydliadau eraill, ac eithrio drwy gyfnewid un-am-un. Gallai mynediad at ofynion mwyaf sylfaenol y gyfundrefn fod yn gyfyngedig ar yr unedau hyn.

Er bod Byrddau unwaith eto wedi arsylwi bod staff yn ymdrechu'n galed i ddarparu gofal priodol i garcharorion oedd wedi'u harwahanu, roedd yn dal yn wir nad oedd gan yr aelodau staff hyn yr hyfforddiant arbenigol i wneud hyn, a bod llawer o garcharorion, yn enwedig y rheini â salwch meddwl difrifol, yn cael eu cadw mewn CSUs pan nad dyma'r lleoliad priodol iddynt, dim ond oherwydd nad oedd unrhyw le mwy addas ar eu cyfer yn y carchar. Mae hyn yn cael ei archwilio ymhellach yn yr adran gofal iechyd.

**Parhaodd diffyg profiad ac absenoldeb staff i gael effaith andwyol ar weithrediadau o ddydd i ddydd**

Roedd y berthynas rhwng staff a charcharorion yn amrywio'n sylweddol o fewn carchardai, a rhyngddynt. Anaml (er nad yn ddigyffelyb) y byddai Byrddau'n rhoi gwybod am ddiffyg parch bwriadol neu fwlio bwriadol gan staff tuag at garcharorion. Fodd bynnag, parhaodd Byrddau i adrodd yn eang ar effaith diffyg profiad staff. Yn aml, nid oedd gan staff mwy newydd y 'crefft carchar' angenrheidiol i osod ffiniau'n hyderus a herio camymddwyn, nac i ffurfio perthnasoedd cadarnhaol â charcharorion. Ar ben hynny, er bod lefelau staffio ar bapur yn llai o bryder nag mewn blynyddoedd blaenorol, roedd lefelau uchel o absenoldeb staff oherwydd salwch, gwyliau blynyddol neu hyfforddiant yn rhoi straen sylweddol ar weithrediadau llawer o garchardai o ddydd i ddydd. Mewn rhai carchardai, fel Downview, arweiniodd hyn hefyd at adleoli staff rhwng swyddogaethau, a oedd yn tanseilio ymdrechion i feithrin profiad a sgiliau mewn meysydd arbenigol.

**Collwyd cyfleoedd i wella'r berthynas rhwng staff a charcharorion drwy'r cynllun gwaith allweddol**

Pan gafodd ei gyflawni yn ôl y bwriad, roedd gan waith allweddol y potensial i wella'r berthynas rhwng staff a charcharorion, a datrys llawer o'r problemau dyddiol sy'n wynebu carcharorion. Roedd hyn yn ei dro yn lleihau'r pwysau ar y broses gwyno (maes dadleuol iawn ynddo'i hun, gyda charcharorion yn aml yn cwyno am ymatebion hwyr neu annigonol i gwynion). Fodd bynnag, roedd yn anghyffredin i garchardai gyflawni gwaith allweddol cyson o ansawdd uchel yn llwyddiannus, a dywedodd Byrddau'n gyffredinol fod y gwaith allweddol a oedd yn cael ei gyflawni yn is o lawer na'r targedau, gydag amrywiaeth sylweddol yn ansawdd y sesiynau. Dywedodd rhai carcharorion wrth aelodau'r IMB nad oeddent hyd yn oed yn gwybod

pwy oedd eu gweithiwr allweddol. Fodd bynnag, nodwyd bod rhaglen waith allweddol Ashfield yn eithriadol o lwyddiannus, a oedd yn debygol o gyfrannu at y berthynas ragorol rhwng staff a charcharorion yn y carchar.

**Roedd carcharorion o leiafrifoedd ethnig a chrefyddau yn cael eu trin yn annheg**

Roedd carcharorion Du a Mwslimaidd yn dal i gael eu gorgynrychioli o ran digwyddiadau defnydd grym a dyfarniadau mewn rhai carchardai. Er bod llawer o Fyrddau wedi dweud yr ymchwiliwyd i'r anghymesureddau hyn mewn cyfarfodydd adolygu defnydd grym, nid oedd yn ymddangos bod hyn yn cael llawer o effaith o ran lleihau defnydd grym anghymesur. Soniodd rhai Byrddau am arwyddion eraill o anghymesuredd - yn Coldingley, er enghraifft, roedd carcharorion o leiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o gael eu cadw mewn adeiniau llai dymunol, fel y rheini heb adnoddau glanweithdra yn y celloedd, tra bod carcharorion gwyn yn fwy tebygol o gael eu cadw mewn llety mwy modern, wedi'i adnewyddu.

Roedd diffyg ymddiriedaeth cyffredinol o hyd o ran y broses DIRF (ffurflen cofnodi digwyddiadau gwahaniaethu - y dull o roi gwybod am unrhyw achosion o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth), gyda charcharorion yn ofni dial os oeddent yn cwyno. Nododd rhai Byrddau fethiannau yn y broses, a allai fod wedi gwaethygu pryderon carcharorion na fyddent yn cael eu trin yn deg. Adroddwyd am ddiffygion hyd yn oed mewn carchardai a oedd ag anghymesureddau clir. Yn Birmingham, er bod lleiafrifoedd hiliol yn cael eu gorgynrychioli mewn dyfarniadau a digwyddiadau defnydd grym, nid oedd DIRFs bob amser ar gael ar yr adeiniau ac nid oedd staff bob amser yn gwybod ble i'w lleoli. Yn Elmley, er gwaethaf anghymesureddau hiliol o ran defnyddio grym, nid oedd DIRFs yn destun unrhyw graffu allanol.

Tynnodd byrddau fel Lindholme, Winchester a Swaleside sylw at bwysigrwydd cael staff cydraddoldeb ac amrywiaeth ymroddedig; pan fyddai’r cyfrifoldebau hyn yn cael eu dosbarthu ymysg rolau staff eraill, roedd yn hawdd i waith cydraddoldeb ac amrywiaeth gael ei esgeuluso.

**Roedd eiddo coll yn arwain at ganlyniadau difrifol i garcharorion**

Roedd eiddo coll yn parhau i fod yn un o bryderon mwyaf dybryd y Bwrdd, ac yn faes nad oedd y Gwasanaeth Carchardai yn rhoi fawr o bwys arno.[6]

**Sut mae colli eiddo yn effeithio ar garcharorion**

Roedd adroddiad thematig yr IMB a gyhoeddwyd ym mis Medi 2024 yn edrych ar yr effaith ddinistriol y gall colli eiddo personol ei chael ar lesiant carcharorion, ac yn tanlinellu'r angen brys am fuddsoddiad mewn datrysiadau effeithiol, gan gynnwys system olrhain ddigidol genedlaethol. Canfu'r adroddiad:

- Ddwy flynedd ar ôl ei weithredu, nid oes fawr ddim tystiolaeth, os o gwbl, fod y Fframwaith Polisi Eiddo Carcharorion wedi gwella neu ddatrys y prif feysydd problemus a nodwyd.
- Roedd staff y Gwasanaeth Carchardai yn aml yn trin eiddo coll fel mater gweinyddol neu fater sy'n ymwneud â phrosesu, heb fawr o gydnabyddiaeth o'r effaith wirioneddol y gall ei chael ar fywydau carcharorion.
- Roedd oedi wrth anfon eiddo, mwy o symud carcharorion, carcharorion yn cyrraedd yn hwyr, prinder staff derbynfa a staff chwilio, a phrosesau cwyno ac iawndal aneffeithiol i gyd wedi cyfrannu at brofiadau gwael iawn i garcharorion o ran gofalu am eu heiddo a'i reoli.
- Un methiant amlwg oedd y defnydd hen ffasiwn o gardiau eiddo papur a gwaith papur, yn hytrach na system ddigidol, a oedd yn golygu nad oedd llwybr archwilio effeithiol na ffordd gyflym o olrhain eiddo.
- Disgrifiodd carcharorion i aelodau'r IMB sut roedd colli eitemau pwysig ac weithiau eitemau anamnewidiadwy, fel lluniau o'r teulu, lluniau plant, papurau cyfreithiol a dogfennau adnabod, wedi niweidio eu hiechyd meddwl a chorfforol ac wedi ei gwneud hyd yn oed yn anoddach ailddechrau eu bywydau'n llwyddiannus y tu allan i'r carchar. Mewn un enghraifft arbennig o frawychus, aeth coes brosthetig carcharor ar goll am dros flwyddyn.

## 1.3 Iechyd a llesiant

Roedd darpariaeth gofal iechyd - ar gyfer iechyd corfforol ac iechyd meddwl - yn amrywio'n sylweddol ar draws yr ystad carchardai. Er bod rhai Byrddau'n adrodd am ddarpariaeth gofal iechyd da neu ragorol hyd yn oed, roedd gan eraill bryderon difrifol. Daeth rhai tueddiadau i'r amlwg rhwng swyddogaethau: yn gyffredinol, roedd gofal iechyd yn cael ei ddisgrifio fel rhywbeth da yn yr ystad agored, ond roedd yn un o'r pryderon mwyaf dybryd ymhlith yr IMBs sy’n monitro ystad y menywod.

**Pryderon gofal iechyd yn HMP Styal**

Roedd gan IMB Styal bryderon sylweddol am berfformiad y darparwr gofal iechyd, Spectrum Community Health CIC, yn ystod blwyddyn adrodd 2023-2024, yn enwedig o ran methiannau i ddarparu meddyginiaethau'n ddiogel ac yn amserol yn gyson. Roedd yn gyffredin gohirio dosbarthu presgripsiynau, gan orfodi carcharorion i gymryd eu meddyginiaeth yn hwyr neu i hepgor dos yn gyfan gwbl. Weithiau, nid oedd meddyginiaethau'n cael eu darparu o gwbl, a nododd y Bwrdd gamgymeriadau, lle'r oedd y cyffuriau anghywir yn cael eu dosbarthu, y dosau anghywir yn cael eu darparu, y meddyginiaethau'n cael eu stopio heb reswm neu'r carcharorion yn cael eu rhyddhau heb eu meddyginiaethau gofynnol - pob un ohonynt yn peri risg o niwed gwirioneddol i'r rheini â chyflyrau iechyd difrifol.

Achosodd y materion hyn bryder sylweddol i'r menywod, a dywedodd rhai ohonynt wrth aelodau'r Bwrdd eu bod dan ormod o straen neu nad oeddent yn ddigon ffit i fynychu gweithgarwch pwrpasol pan oedd eu meddyginiaeth yn hwyr.

Roedd pryderon hefyd am restrau aros hir ar gyfer apwyntiadau meddygon teulu a deintyddion, apwyntiadau'n cael eu canslo oherwydd diffyg hebryngwyr staff ac amserlennu ar hap, a oedd yn achosi i rai menywod wrthod apwyntiadau er mwyn osgoi colli gweithgarwch pwrpasol.

Mewn ymateb, cynhaliodd y Bwrdd waith monitro thematig ar ofal iechyd a meddyginiaethau dros gyfnod hir o amser, gan anfon yr adroddiad at y Llywodraethwr a'r Pennaeth Gofal Iechyd, yn ogystal â llythyr dilynol. Wrth i'r mater fynd heb ei ddatrys, ysgrifennodd y Bwrdd at Brif Swyddog Gweithredol Spectrum, a ymatebodd yn brydlon i drefnu cyfarfod gyda'r Bwrdd. Ers hynny, mae'r Bwrdd wedi gweld gwelliant sylweddol yn y ddarpariaeth gofal iechyd, ac mae'n parhau i fonitro'r sefyllfa'n agos i sicrhau bod hyn yn cael ei gynnal.

### Roedd prinder staff wedi arwain at ddarpariaeth anghyson

Fel yn 2023, roedd staffio gofal iechyd yn broblemus mewn llawer o garchardai, yn aml gyda gorddibyniaeth ar weithwyr asiantaeth a oedd yn llai cyfarwydd â'r carchar. Cododd byrddau bryderon penodol ynghylch diffyg darpariaeth gofal iechyd gyda'r nos ac ar benwythnosau. Mewn rhai carchardai, arweiniodd hyn at garcharorion sy'n

cyrraedd yn hwyr yn peidio â chael eu sgrinio o ran gofal iechyd tan y diwrnod canlynol, a allai arwain at beidio â nodi gwendidau hanfodol yn brydlon. Ym Mrynbuga a Prescoed, yn aml roedd yn rhaid i staff gofal iechyd aros yn hwyr er mwyn rheoli'r carcharorion oedd yn cyrraedd yn hwyr, ac roedd rhai carcharorion yn cyrraedd yn ddifrifol wael ac roedd angen i feddyg teulu eu hadolygu.

**Roedd carcharorion â salwch meddwl difrifol yn aml yn cael eu hesgeuluso**

Roedd iechyd meddwl yn bryder dybryd i lawer o Fyrddau, gydag adroddiadau'n parhau i dynnu sylw at y lefel uchel iawn o anghenion iechyd meddwl yn yr ystad carchardai. Roedd yn ymddangos mai timau iechyd meddwl oedd yn cael eu heffeithio fwyaf gan brinder staff, a oedd yn gallu arwain at arosiadau hir i garcharorion sydd angen gofal iechyd meddwl.[7]

**Arwahanu dynion ag anghenion iechyd meddwl**

Ym mis Ionawr 2024, cyhoeddodd yr IMB adroddiad thematig ar arwahanu dynion ag anghenion iechyd meddwl, a ganfu’r canlynol:

- Roedd carcharorion ag anghenion iechyd meddwl yn aml yn cael eu cadw am gyfnodau hir mewn CSUs (dros 800 diwrnod mewn un achos) ac, yn aml, nid oedd y targed o 28 diwrnod i drosglwyddo dynion sy'n ddifrifol wael o'r carchar i ysbyty diogel yn cael ei gyflawni. Canfu'r IMBs mai'r rheswm pennaf am hyn oedd:
  - Dynion yn cael trafferth ymdopi neu'n gwrthod ailintegreiddio ar yr adeiniau preswyl.
  - Diffyg capasiti mewn carchardai neu unedau gofal iechyd mewn carchardai sydd â swyddogaethau arbenigol.
  - Oedi wrth atgyfeirio, asesu a throsglwyddo i ysbyty diogel.
  - Dim dewis amgen, yn aml oherwydd diffyg diagnosis neu oherwydd nad yw’r dynion wedi cyrraedd y trothwy ar gyfer cael eu derbyn i ysbyty diogel. Er bod y rhan fwyaf o'r IMBs yn deall pam yr ystyriwyd mai CSUs oedd y lle mwyaf priodol i'r dynion hyn gael eu cadw allan o'r opsiynau cyfyngedig sydd ar gael mewn carchardai, roedd pryderon cyffredinol o hyd mai CSUs oedd yr unig ddewis amgen ar gyfer y dynion eithriadol o sâl hyn.
- Roedd carcharorion ag anghenion iechyd meddwl yn aml yn cael eu symud rhwng gwahanol CSUs, unedau gofal iechyd, neu'n dychwelyd i'r adeiniau am gyfnodau byr, gan ei gwneud yn anoddach olrhain yr amser cronnol yr oedd rhai carcharorion yn ei dreulio wedi’u harwahanu.
- I ddynion a oedd eisoes yn cael trafferth gyda'u hiechyd meddwl, roedd eu llesiant a'u hymddygiad yn aml yn dirywio ymhellach wrth gael eu harwahanu am gyfnodau hir.

Er bod cwmpas yr adroddiad hwn wedi'i gyfyngu i ystad y dynion, adlewyrchir y materion a amlinellir yng nghanfyddiadau'r IMBs sy'n monitro ystad y menywod.

Drwy gydol 2024, roedd Byrddau'n parhau i godi pryderon cynyddol am garcharu unigolion â salwch meddwl difrifol nad yw carchar yn amgylchedd priodol na thrugarog iddynt. Roedd carcharorion sâl iawn yn dal i aros cannoedd o ddiwrnodau am drosglwyddiad oherwydd prinder gwelyau, neu roedd eu hatgyfeiriadau wedi cael eu gwrthod er eu bod wedi cael eu datgan yn anaddas i'w cadw'n gaeth mewn amgylchedd carchar. Roedd effaith yr oedi hwn yn parhau i fod yn syfrdanol: mewn un carchar categori C, cafodd carcharor ei arwahanu am oddeutu chwe mis cyn cael ei drosglwyddo i ysbyty diogel, gan gael ei gadw mewn cell wag oherwydd y risg o hunan-niweidio, a heb fynediad at gymorth gofal cymdeithasol. Dros y cyfnod hwnnw, dirywiodd ei iechyd yn gyflym, collodd lawer iawn o bwysau, ac roedd ei fywyd bob dydd yn gyfyngedig iawn; roedd yn cael ei gefnogi gan y broses ACCT, ond gan ei fod yn aml yn ddieiriau, roedd yr adolygiadau ACCT yn aml yn ddibwrpas. Dangosodd aelodau staff bryder ac weithiau trallod ynghylch ei gyflwr, a dywedodd rhai carcharorion wrth yr IMB eu bod yn ofni y byddai'n marw cyn cael ei ryddhau o ddioddefaint a thriniaeth amhriodol. Mewn carchar hyfforddi Categori C arall, treuliodd carcharor ag anhwylder personoliaeth tua wyth mis yn y gell gwylio gyson oherwydd ymdrechion mynych i hunan-niweidio. Roedd y lleoliad hwn yn peri trallod i'r carcharor ac roedd yn feichus iawn o ran adnoddau staff.

**Roedd Byrddau'n poeni fwyfwy am y ffordd yr oedd carcharorion hŷn yn cael eu trin, yn enwedig y rheini â dementia neu anghenion gofal cymdeithasol sylweddol eraill**

Roedd yn gyffredin i Fyrddau adrodd bod y carchardai a gafodd eu monitro ganddynt yn gwbl anaddas i ddarparu ar gyfer y rheini sydd ag anghenion gofal cymdeithasol sylweddol, a allai arwain at ganlyniadau dychrynllyd. Er enghraifft, disgrifiodd IMB Dartmoor garcharorion â dementia yn treulio 23.5 awr y dydd yn eu celloedd, yn methu cael mynediad at eu 'cyfeillion' (carcharorion a neilltuwyd i helpu gyda rhai agweddau ar eu gofal) oherwydd cyfyngiadau'r gyfundrefn, gan fynd 21 awr heb gael eu hatgoffa i fwyta nac yfed. Mynegodd Bwrdd arall bryderon am garcharor oedrannus iawn nad oedd yn gallu cyrraedd ei doiled yn y gell mwyach ac, o ganlyniad, roedd yn baeddu ei hun yn rheolaidd, gyda staff yn methu dod o hyd i ddatrysiad urddasol.

Gyda'r disgwyliad y bydd poblogaeth y carchardai'n heneiddio, bydd hyn ond yn dod yn fater pwysicach. Nid yw strategaeth HMPPS ar gyfer carcharorion sy'n heneiddio wedi cael ei gwireddu, er ei bod wedi cael ei haddo ers sawl blwyddyn. Mae'n hanfodol bod strategaeth realistig yn cael ei datblygu a'i hariannu cyn gynted â phosibl er mwyn dod o hyd i ddatrysiadau derbyniol cyn i ddiffygion o'r fath mewn gofal ddod yn fwy cyffredin fyth.

**Roedd amser allan o'r gell yn parhau i fod yn gyfyngedig ac yn anrhagweladwy**

Er bod IMBs ar draws yr ystad wedi adrodd am ymdrechion ar y cyd i wella amser allan o'r gell, roedd y canlyniadau'n gyfyngedig yn y rhan fwyaf o garchardai. Roedd natur anrhagweladwy yr amser allan o'r gell yn fater allweddol - roedd canslo gweithgareddau yn gyffredin, gyda charcharorion yn teimlo'n rhwystredig ac yn ddigalon o ganlyniad.

Roedd hyn yn cael ei briodoli'n fwyaf cyffredin i ddiffyg staffio, gan gynnwys mewn

carchardai a oedd â lefelau staffio da ar bapur, ond lle'r oedd absenoldeb staff yn uchel. Fodd bynnag, roedd carchardai â lefelau uchel o drais neu anhrefn, neu'r rhai a oedd yn gorfod rheoli poblogaethau arbennig o annhebyg, hefyd yn cael trafferth darparu cyfundrefn dda oherwydd y pwysau sy'n gysylltiedig â rheoli gwahanol garfannau, a charcharorion sydd yn rhaid eu 'cadw ar wahân' (carcharorion nad ydynt yn gallu cysylltu â'i gilydd am resymau diogelwch).

Roedd y rhwystredigaethau a oedd yn deillio o gyfyngiadau'r gyfundrefn yn aml yn tanseilio sefydlogrwydd carchardai, gyda charcharorion yn protestio neu'n ymosod ar staff neu garcharorion eraill. Yn Eastwood Park, er enghraifft, roedd diffyg Uned Gofal a Gwahanu yn golygu bod menywod a oedd wedi’u harwahanu yn cael eu cymryd i’r prif leoliad, ac roedd yn rhaid i fenywod arall ar yr un unedau gael eu cloi yn eu celloedd tra bod y menywod a oedd wedi’u harwahanu yn cael eu hamser allan o'r gell. Roedd y nifer uchel o fenywod ag anghenion iechyd meddwl cymhleth yn cyfyngu ymhellach ar yr amser allan o'r gell ar gyfer y boblogaeth gyffredinol, gan fod adnoddau staff yn cael eu cyfeirio at gynorthwyo menywod mewn argyfwng yn hytrach na hwyluso'r gyfundrefn arferol. Fe wnaeth rhai menywod fynegi eu rhwystredigaethau drwy ymosod ar swyddogion, gan waethygu'r straen ar staff a oedd eisoes yn ei chael hi'n anodd darparu cyfundrefn ddiogel a sefydlog.

**Cymorth camddefnyddio sylweddau wedi methu â mynd i'r afael â'r broblem**

Nododd llawer o IMBs ddiffyg gwasanaethau camddefnyddio sylweddau digonol, gyda phrinder staff yn aml yn llesteirio'r maes gweithredu hwn. Profodd rhai carchardai ddiffygion staffio o hyd at 50% mewn gwasanaethau cyffuriau ac alcohol, a chanfu sawl Bwrdd fod y darparwyr gofal iechyd a gontractiwyd i ddarparu gwasanaethau adsefydlu cyffuriau ac alcohol yn brin o staff ac yn cael eu gorymestyn. Yn ogystal, nid oedd gan lawer o garchardai'r cyfleusterau i gefnogi'r carcharorion hyn; yn Feltham, er enghraifft, roedd prinder ystafelloedd ar gael i gynnal ymyriadau camddefnyddio sylweddau. Dywedodd y Bwrdd yn HMP Leicester nad oedd yr uned adfer cyffuriau yn gweithredu'n effeithiol ar ddechrau'r flwyddyn oherwydd nad oedd y ddarpariaeth ymyriadau seicogymdeithasol wedi dechrau eto, er gwaethaf yr addewid yn y contract gofal iechyd.

Gwelwyd rhai unedau byw heb sylweddau annibynnol (ISFLUs) yn cynnig cymhellion a chefnogaeth dda i garcharorion, fel y disgrifir gan yr IMB yn Rochester, a oedd yn adrodd ar ymgysylltiad da gan garcharorion ac awyrgylch hamddenol ar yr uned. Fodd bynnag, yn aml roedd swyddogaeth yr unedau hyn mewn carchardai eraill yn cael ei deneuo gan garcharorion anghymwys yn cael eu rhoi arnynt oherwydd diffyg lle mewn mannau eraill. Mewn rhai carchardai, roedd y lefel uchel o gyffuriau a oedd ar gael ac yn cael eu defnyddio yn peryglu swyddogaeth yr ISFLU. Yn Long Lartin, tan fis Mehefin 2024, roedd swyddogaeth arfaethedig yr uned yn cael ei pheryglu gan brinder staff a phresenoldeb carcharorion gorlif, ac roedd cyffuriau ar gael yn rhwydd. Yn Coldingley, roedd tua dwy ran o dair o'r digwyddiadau 'o dan ddylanwad alcohol' a gofnodwyd wedi digwydd ar yr ISFLU.

Cafodd trefniadau profi am gyffuriau eu cwestiynu gan rai Byrddau: er enghraifft, nododd IMB Coldingley nad oedd y profion a ddefnyddir ar ISFLUs yn gallu canfod sylweddau seicoweithredol, er mai'r rhain oedd y cyffuriau mwyaf cyffredin sy'n peri pryder yn yr uned yno. Mewn carchardai eraill, fel Sudbury, arweiniodd pryderon

ynghylch cywirdeb profion swab at gryn ofid ymysg carcharorion. Roedd arwyddion hefyd tua diwedd y flwyddyn adrodd bod rhai carchardai'n dechrau dadflaenoriaethu profion cyffuriau gorfodol, naill ai oherwydd diffyg adnoddau staff neu oherwydd penderfyniad i gyfeirio adnoddau cyfyngedig tuag at gefnogi carcharorion yn hytrach na'u profi neu eu disgyblu. Bydd canlyniadau hyn yn cael eu monitro drwy gydol 2025.

## 1.2 Cynnydd ac ailsefydlu

**Roedd y lefelau a'r mathau o weithgarwch pwrpasol a oedd ar gael yn yr ystad gaeedig yn wael**

Er bod y cynigion hyfforddiant ac addysg yn dda ar y cyfan yn yr ystad agored, roeddent yn aml yn is na'r disgwyliadau yn yr ystad gaeedig. Roedd y canlyniadau'n arbennig o wael mewn carchardai derbyn, a mynegodd nifer o IMBs bryderon ynghylch nifer y carcharorion ar remand nad oeddent yn cael eu cymell i gymryd rhan mewn gweithgarwch pwrpasol, ac felly roeddent yn treulio'r rhan fwyaf o'u dyddiau yn eu celloedd. Nid mater o ddewis oedd hyn bob amser: nododd yr IMB yn Bullingdon fod llawer o garcharorion ar remand yn cwyno am ba mor anodd oedd cyrchu gweithgarwch pwrpasol. Yn Pentonville, lle'r oedd dros 60% o garcharorion ar remand, roedd carcharorion nad oeddent mewn gwaith nac addysg fel arfer yn treulio 22 awr y dydd yn eu celloedd.

Gweithdai oedd un o'r meysydd y rhoddwyd y gorau i'w defnyddio amlaf o ganlyniad i broblemau adeiladwaith, a'r problemau mwyaf cyffredin oedd gollyngiadau a thymheredd oer; yn Littlehey, roedd yr amodau mor wael ar adegau fel bod hyfforddwyr gweithdai'n gwrthod gweithio. Roedd achosion o'r fath nid yn unig yn lleihau nifer y lleoedd ar weithgareddau a oedd ar gael, ond hefyd yn effeithio ar ragweladwyedd, gan y gallai sesiynau gwaith gael eu canslo ar y funud olaf oherwydd tywydd gwael.

Mae llawer o'r Byrddau sy'n monitro wedi dweud nad oedd y ddarpariaeth hyfforddiant ac addysg yn cyd-fynd ag anghenion y boblogaeth. Mae pryderon penodol yn amrywio'n fawr - mewn rhai carchardai nid oedd digon o ddosbarthiadau mathemateg a Saesneg lefel is ar gyfer anghenion y boblogaeth (fel yn Rochester, oherwydd prinder tiwtoriaid), tra mynegodd Byrddau eraill bryder ynghylch blaenoriaethu'r dosbarthiadau hyn dros opsiynau mwy poblogaidd fel celf, yn enwedig mewn carchardai â phoblogaethau uchel ar remand fel Bedford, gan nad oedd yn rhaid i garcharorion ar remand fynychu addysg ac roedd tynnu opsiynau mwy poblogaidd yn ôl yn golygu bod rhai wedi gwrthod cymryd rhan. Nododd sawl Bwrdd nad oedd digon o leoedd ar y cyrsiau galwedigaethol mwy poblogaidd, megis y cwrs hyfforddi wagen fforch godi yn Wayland, sydd hefyd yn gyrsiau sy'n debygol iawn o arwain at gyflogaeth ar ôl i'r carcharorion gael eu rhyddhau.

Er bod yr ystad agored wedi adrodd yn llawer mwy cadarnhaol ar weithgarwch pwrpasol (ac ar bob agwedd arall ar gynnydd ac ailsefydlu), cafodd newidiadau yn y boblogaeth effaith yma hefyd: roedd carcharorion yn dal i gael eu symud i garchardai agored cyn gynted â phosibl i ryddhau mannau yn yr ystad gaeedig, a gafodd effaith o ran ansefydlogi. Gan fod llawer o'r carcharorion hyn yn cael eu trosglwyddo'n agos at eu dyddiadau rhyddhau, roedd ganddynt lai o gymhelliant i gymryd rhan mewn

gwaith neu addysg, a allai ddigalonni ac amharu ar weddill y boblogaeth. Ar ben hynny, roedd y nifer fawr o welyau gwag o ganlyniad i gynlluniau rhyddhau cynnar yn golygu bod llai o garcharorion yn gallu manteisio ar gyfleoedd gwaith y tu allan i'r carchar, gan ei bod yn ofynnol i nifer penodol o garcharorion weithio yn y carchar i gynnal gweithrediadau dyddiol. Roedd hyn yn lleihau nifer y carcharorion a allai brofi manteision lleoliadau gwaith ROTL (rhyddhau ar drwydded dros dro), fel ailintegreiddio'n rhannol i fywyd cymunedol a mwy o gyfleoedd cyflogaeth ar ôl cael eu rhyddhau.

**Roedd pwysau poblogaeth a phrinder staff yn llesteirio cynnydd carcharorion**

Fel yn 2023, roedd pwysau poblogaeth yn ei gwneud yn anodd lleoli carcharorion lle gellid eu galluogi orau i symud ymlaen tuag at gael eu rhyddhau. Roedd carcharorion yn dal i gael trafferth cyrchu rhaglenni ymddygiad troseddol yr oedd angen iddynt eu cwblhau, gan ymestyn eu hamser yn y ddalfa yn ddiangen o bosibl. Roedd hyn yn arbennig o gyffredin i garcharorion a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol a oedd angen cwblhau cyrsiau penodol i symud ymlaen, fel yr amlygwyd gan IMBs Swaleside a Woodhill. Roedd llawer o garcharorion yn ei chael yn anodd symud drwy'r ystad ac arddangos llai o risg; er enghraifft, yn Garth (carchar categori B yn yr LTHSE), roedd tua 20% o'r boblogaeth yn garcharorion categori C nad oeddent yn gallu cael trosglwyddiadau blaengar oherwydd pwysau poblogaeth.

Roedd unedau rheoli troseddwyr heb ddigon o staff yn dal i effeithio ar gynnydd carcharorion, ac roedd yr anhawster o gael cyswllt â staff prawf yn achosi rhwystredigaeth a thrallod i garcharorion. Fe wnaeth y rheini nad oeddent yn gymwys i gael eu rhyddhau'n gynnar brofi effeithiau canlyniadol yn sgil cynlluniau fel SDS40, a oedd yn golygu bod angen cyfeirio adnoddau prawf at y rheini a oedd yn cael eu rhyddhau'n fuan ar draul y boblogaeth ehangach.

**Cyfrannodd gwaith adsefydlu anghyson at yr 'effaith drws tro'**

Parhaodd byrddau yn yr ystad gaeedig i adrodd am ddiffygion difrifol wrth baratoi ar gyfer rhyddhau carcharorion. Yn benodol, roedd IMBs yn tanlinellu'r nifer uchel o garcharorion a ryddhawyd yn ddigartref, gyda llawer ohonynt wedyn yn cael eu hadalw i'r carchar. Roedd hyn yn fwyaf cyffredin ar gyfer carcharorion ar remand, y rheini sy'n cael eu rhyddhau o garchardai heb swyddogaeth adsefydlu pwrpasol, a'r rheini sy'n bwrw dedfrydau byr neu adalwadau byr. Gan fod menywod yn fwy tebygol o fod yn bwrw dedfrydau byr neu adalwadau byr, roedd hon yn broblem benodol yn ystad y menywod; er enghraifft, yn Bronzefield, roedd 13% o fenywod yn ddigartref ar ôl cael eu rhyddhau. Disgrifiodd rhai IMBs 'effaith drws tro' o ganlyniad, gyda charcharorion yn cael eu rhyddhau dro ar ôl tro a'u hadalw'n gyflym. Er enghraifft, yn Winchester, rhyddhawyd dros 21% o'r carcharorion a ryddhawyd yn 2024 yn ddigartref. Roedd data misol yn dangos bod canran drawiadol o uchel o'r carcharorion hyn a gafodd eu rhyddhau wedi arwain at adalw'r carcharor i'r carchar o fewn chwe wythnos, gan amrywio rhwng 42% a 78% yn ystod y flwyddyn.

## 2. Sefydliadau Troseddwyr Ifanc

**Y prif ganfyddiadau**

- Roedd cynnydd pryderus yn y lefelau hunan-niweidio mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc (STIau) yn Lloegr.
- Roedd trais ac arfau'n tanseilio gallu STIau i adsefydlu plant, gan ddargyfeirio adnoddau oddi wrth bob maes gweithredu arall.
- Roedd prinder ystafelloedd yn effeithio ar y gallu i ddarparu ymyriadau un-i-un ac apwyntiadau iechyd meddwl.
- Roedd plant yn Lloegr yn dal i dreulio llawer gormod o amser yn eu hystafelloedd gyda gweithgarwch neu gymdeithasu cyfyngedig iawn - roedd hyn yn arbennig o wir am y rheini a oedd yn cael eu gwahanu oddi wrth eraill. Roedd rhai anghydfodau ynghylch cywirdeb cofnodion data yn y maes hwn.
- Roedd ansawdd ac amlder yr addysg a oedd ar gael yn wael ar y cyfan, ac yn aml yn cael ei darfu gan drefniadau 'cadw ar wahân', ymladd a phrinder staff.

### Newidiadau yn y boblogaeth

Eleni, gwelwyd newidiadau sylweddol yn strwythur yr ystad ieuenctid ddiogel, ac nid yw'r canlyniadau wedi cael eu gwireddu'n llawn eto. Ar ôl tynnu Cookham Wood yn llwyr o'r ystad ieuenctid ym mis Mai 2024, symudodd llawer o blant a oedd wedi cael eu cadw yno i STIau eraill ledled y wlad, gan achosi tarfu rhagweladwy o ganlyniad. Roedd y mewnlifiad o newydd-ddyfodiaid yn rhoi straen ychwanegol ar yr STIau a oedd yn derbyn; yn Feltham roedd pobl ifanc yn bryderus am y newydd-ddyfodiaid (yn bennaf oherwydd anghydfodau yn y gymuned) a chododd lefelau hunan-niweidio. Roedd cau Cookham Wood hefyd yn golygu mai Feltham oedd yr unig STI a oedd yn gwasanaethu de Lloegr. Roedd hyn yn cynyddu'r pwysau ar Feltham wrth i ddalgylch ei lys ehangu, ac wrth i fwy o fechgyn gael eu carcharu ymhell o'u cartrefi, eu teuluoedd a'u systemau cymorth.

Cymerodd Oasis Secure School ei lleoliad cyntaf ym mis Awst 2024 ar ôl llawer o ddisgwyl. Nid yw canlyniadau hyn ar gyfer STIau yn ddiriaethol eto; mae IMBs STIau yn monitro'r sefyllfa gyda diddordeb mawr.

Yn olaf, comisiynodd y Gweinidog Cyfiawnder Ieuenctid adolygiad tri mis a oedd yn ystyried opsiynau lleoli ar gyfer merched ifanc yn yr ystad ddiogel i blant. O ganlyniad, cyhoeddwyd ym mis Chwefror 2025 na fyddai merched yn cael eu cadw mewn STIau mwyach. Roedd hwn yn ddatblygiad i'w groesawu; mae IMB Wetherby wedi tynnu sylw'n gyson at y ffaith nad yw Wetherby yn addas i ddal merched, a bod cadw merched yno wedi arwain at ganlyniadau annerbyniol i bob plentyn yn y sefydliad.

### 2.1 Diogelwch

**Roedd lefelau hunan-niweidio yn bryder acíwt mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc yn Lloegr**

Gwelodd Wetherby lefelau uchel parhaus o hunan-niweidio - roedd hyn yn bennaf oherwydd y merched a oedd yn cael eu dal yno, a oedd ag anghenion cymhleth iawn ac a oedd yn hunan-niweidio yn fynych. Yn Feltham, cododd hunan-niweidio o lefelau cymharol isel yn ystod misoedd cynnar 2024 i lefelau uchel yn ystod misoedd yr haf (3.5 digwyddiad fesul 100 o blant ym mis Chwefror, i 23.8 ym mis Mai; bron i saith gwaith yn uwch). Er bod hyn yn rhannol oherwydd y cynnydd yn y boblogaeth a'r pryder ynghylch carcharorion Cookham Wood yn cyrraedd, roedd hefyd yn ymddangos ei fod yn gysylltiedig â gostyngiad mewn lefelau staffio effeithiol. Yn Werrington, er bod digwyddiadau hunan-niweidio wedi parhau i ostwng, roedd y Bwrdd yn poeni am nifer y digwyddiadau sy'n ymwneud â nifer fach o blant (136 yn ymwneud â 25 o blant), a'r cynnydd sylweddol mewn digwyddiadau lle mae angen triniaeth yn yr ysbyty. Roedd y paneli arsylwi gwydr ar ddrysau celloedd yn aml yn cael eu chwalu, ac roedd nifer o achosion o blant wedyn yn llyncu gwydr wedi torri neu'n dweud eu bod wedi gwneud hynny.

Adroddodd IMB Feltham a Werrington fod lefelau ACCT wedi cynyddu, ac roedd Bwrdd Werrington yn ystyried bod hyn yn peri pryder. Nododd yr IMBs fod ACCTs yn cael eu hagor yn rhwydd a bod y broses yn cael ei dilyn. Fodd bynnag, roedd IMB Wetherby yn cwestiynu pa mor addas yw'r broses ACCT ar gyfer plant, sy'n debygol o'i chael hi'n anodd siarad am eu hiechyd meddwl â grŵp mawr o oedolion nad ydynt yn eu hadnabod yn dda. Yn Werrington, roedd y Bwrdd yn dal i gael trafferth monitro adolygiadau ACCT oherwydd nad oedd adolygiadau'n cael eu trefnu mewn da bryd.

**Roedd trais a chario arfau wedi effeithio ar bob agwedd ar fywydau plant a oedd yn cael eu cadw'n gaeth**

Roedd trais yn dal yn her ddifrifol ym mhob STI. Er bod yr IMBs yn pwysleisio bod y rhan fwyaf o'r trais yn cael ei gyflawni gan nifer fach o blant, effeithiwyd ar bob plentyn ac ar bob agwedd ar fywyd. Roedd nifer y plant nad oeddent yn cael cysylltu â'i gilydd yn effeithio ar yr amser y tu allan i'r ystafell a gafodd y plant, yn ogystal â'u mynediad at weithgarwch pwrpasol. Cafodd digwyddiadau difrifol yr un effaith, gan y gallai plant dreulio oriau dan glo yn eu hystafelloedd heb fwyd na gweithgareddau nes bod y digwyddiad wedi'i ddatrys.

Adroddodd IMB Werrington am gynnydd sylweddol mewn ymosodiadau ar staff, ymosodiadau ar bobl ifanc eraill a chwffio; roedd cynnydd sylweddol hefyd yn nifer y staff yr oedd angen triniaeth ysbyty arnynt yn dilyn ymosodiadau. Yn ogystal, adroddodd y Bwrdd gynnydd o 39% yn nifer y plant sy'n hunan-wahanu - dywedodd y plant wrth y Bwrdd mai'r rheswm am hyn oedd eu bod yn ofni plant eraill a'u bod eisiau osgoi mynd i drwbl. Yn Feltham, roedd lefelau trais a phlant nad oeddent yn cael cysylltu â'i gilydd wedi gwella yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn, ond dechreuodd gynyddu eto o fis Mai ymlaen, gan gyd-daro â chau Cookham Wood a'r cynnydd yn y boblogaeth. Yn Wetherby, dywedodd llawer mwy o blant wrth yr IMB eu bod yn ofni plant eraill yn y sefydliad; oedd yn ddigwyddiad prin yn y gorffennol.

## 2.2 Triniaeth deg a dyngarol

**Roedd oedi o ran gwaith cynnal a chadw yn gyffredin ac roedd prinder ystafelloedd yn effeithio ar y gallu i ddarparu ymyriadau**

Roedd cyflwr y llety a'r cyfleusterau yn well ar y cyfan nag yn yr ystad oedolion, ond roedd meysydd pryder o hyd. Roedd rhai o'r rhain yn adlewyrchu problemau a ganfuwyd mewn carchardai oedolion, fel problemau gyda chawodydd a draenio yn Feltham, a chwynion mynych am dymheredd anghyfforddus o oer neu boeth yn Wetherby, ble roedd oed yr adeiladau'n golygu ei bod yn frwydr barhaus i ddarparu system wresogi effeithiol. Yn Werrington, er bod gwelliannau a wnaed dros y blynyddoedd blaenorol wedi cael eu canmol (fel gosod mwy o gawodydd yn y celloedd), roedd y seilwaith yn wael ac roedd yr adeiladau'n gyffredinol yn annymunol ac yn gaethiwus. Roedd y rhagolygon yn y Parc yn fwy cadarnhaol, gyda safon dda o lety a gwaith adnewyddu ar y gweill.

Problem gyffredin a wynebir gan bob STI oedd prinder ystafelloedd, a oedd yn effeithio'n benodol ar y gallu i ddarparu ymyriadau un-i-un. Yn aml, roedd hyn o ganlyniad i blant yn dinistrio eiddo, a allai olygu nad oedd ystafelloedd ar gael am wythnosau neu fisoedd, gan olygu weithiau nad oedd cyfleusterau neu unedau pwrpasol yn cael eu defnyddio. Yn Feltham, cafodd yr uned gymorth uwch ei difrodi'n ddifrifol ym mis Hydref 2023, ac nid oedd modd ei defnyddio hi eto tan ddiwedd 2024. Yn yr un modd, cafodd yr uned ailintegreiddio ar gyfer gwella llesiant a datblygiad (WADE) yn Werrington ei chau am sawl wythnos ar ôl i berson ifanc achosi difrod difrifol. Yn Wetherby, nid oedd modd defnyddio’r llyfrgell am gyfnod yn dilyn digwyddiad difrifol.

### Treuliodd llawer o blant gyfnodau hir wedi'u gwahanu oddi wrth eraill, heb gael fawr ddim addysg nac ymarfer corff

Roedd IMBs a oedd yn monitro STIau yn Lloegr yn dal i adrodd ar y nifer uchel o blant ag anghenion cymhleth a oedd yn cael eu cadw mewn unedau gwahanu, er bod y Parc wedi adrodd am ostyngiadau yn nifer y plant a oedd yn cael eu gwahanu a hyd cyfartalog y gwahanu; roedd plant a oedd wedi'u gwahanu hefyd yn cael eu cymell i fyw fel un gymuned yn y Parc. Roedd ymdrechion y staff i gefnogi'r bobl ifanc hyn, dan amodau heriol iawn, yn cael eu canmol yn gyffredinol. Fodd bynnag, roedd IMBs Wetherby a Feltham yn poeni am rai pobl ifanc a dreuliodd gyfnodau hir iawn ar wahân, rhai ohonynt yn debygol o aros yn y ganolfan wahanu nes iddynt gael eu rhyddhau; roedd hyn fel arfer yn ymwneud â phobl ifanc a oedd wedi cael eu gwahanu er eu diogelwch eu hunain.

Yn y cyd-destun hwn, roedd y drefn gyfyngedig a'r addysg a gynigiwyd ar yr unedau hyn yn peri pryder mawr. Adroddodd IMBs Wetherby a Feltham ar y ddarpariaeth addysg gyfyngedig ac anghyson ar yr unedau. Yn Wetherby, dim ond 30 munud y dydd oedd pobl ifanc yn ei gael yn yr awyr iach, ac nid oedd ganddynt fynediad i'r gampfa yn ystod yr wythnos. Disgrifiodd y Bwrdd y drefn gyfyngedig nid yn unig fel un annynol ond fel un ddiraddiol, er eu bod wedi nodi rhai gwelliannau tua diwedd y flwyddyn adrodd.

### Roedd perthnasoedd rhwng staff a phlant yn amrywio’n sylweddol

Roedd perthnasoedd rhwng staff a phlant yn amrywio rhwng, ac o fewn, STIau, ac roedd yn amlwg bod hyn yn dibynnu ar hyder staff a chyfleoedd i ryngweithio'n ystyrlon. Yn Feltham, nodwyd bod ymdrechion y tîm hyfforddi safonau, a ddaeth i'r

STI ym mis Hydref 2023, wedi arwain at welliant amlwg yn hyder y staff. O ganlyniad, gwelwyd bod y berthynas rhwng staff a phobl ifanc yn dda iawn erbyn diwedd y flwyddyn adrodd a bod cyfraddau gadael staff wedi gostwng. Yn y Parc, lle mae perthnasoedd rhwng staff a phlant wedi cael eu disgrifio fel rhai cadarnhaol dros y blynyddoedd diwethaf, cafodd y diwylliant cefnogol a gofalgar ei gynnal er gwaethaf cyfnodau o bontio i arweinwyr newydd.

I'r gwrthwyneb, yn Werrington, anaml y gwelodd y Bwrdd sgyrsiau hirfaith na chyfathrebu cynnes rhwng pobl ifanc a swyddogion, gan nodi: “Mae'n parhau i fod yn anodd gweld sut y gellid cyfathrebu'n ystyrlon drwy sgyrsiau drwy ddrysau wedi'u cloi”. Yn Wetherby, roedd lefelau staffio wedi gwella tua diwedd y cyfnod adrodd ac roedd y cynnydd mewn absenoldebau wedi cael ei ddatrys yn llwyddiannus. Disgrifiodd y Bwrdd y rhan fwyaf o ryngweithio rhwng staff a phlant fel rhywbeth ‘da’, er bod rhai pryderon ynghylch diffyg profiad ac ieuenctid llawer o swyddogion. Roedd cynlluniau cymorth yn y ddalfa (CuSPs, sy'n cyfateb i waith allweddol yn yr ystad oedolion) yn addawol, ond roeddent yn anghyson ac yn cael eu tanddefnyddio ym mhob sefydliad; yn Wetherby, dywedodd rhai pobl ifanc wrth aelodau'r Bwrdd nad oeddent yn gwybod beth oedd CuSP na phwy oedd eu swyddog CuSP.

**Roedd yr ymdrechion i fynd i'r afael â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn gymysg**

Gwelodd y Parc fwy o gymorth i'r swyddogaeth amrywiaeth a chynhwysiant, a mwy o flaenoriaeth iddi, a soniodd Wetherby a Feltham am rai mentrau da i wella agweddau ynghylch hil a rhywioldeb. Fodd bynnag, dywedwyd bod hyn wedi cael llwyddiant cymysg yn Wetherby: er bod staff wedi dod yn fwy hyderus wrth herio ymddygiad amhriodol a bod ymdrechion i wella'r broses DIRF, roedd lefelau DIRF yn dal yn uchel a daeth y Bwrdd i'r casgliad bod hiliaeth yn dal yn broblem. Yn Werrington, cynyddodd nifer y DIRFs a gyflwynwyd, a chredai'r Bwrdd fod y plant wedi cael eu siomi gan ddiffyg llywodraethu o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth am ran o'r flwyddyn adrodd.

## 2.3 Iechyd a llesiant

**Weithiau roedd gofal iechyd meddwl a gofal cymdeithasol yn ddiffygiol**

Adroddwyd yn gadarnhaol ar ofal iechyd cyffredinol, yn enwedig o'i gymharu â'r ystad oedolion. Fodd bynnag, roedd gan Fyrddau bryderon parhaus am y gofal y gellid ei ddarparu i bobl ifanc sy'n cael trafferth gyda salwch meddwl, ac am y rhwystrau i gynnal ymyriadau iechyd meddwl a gofal cymdeithasol llwyddiannus.

Dywedodd IMB Wetherby fod Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn cael trafferth dod o hyd i ystafelloedd priodol i gynnal apwyntiadau ynddynt, a oedd weithiau'n arwain at ganslo apwyntiadau plant. Yn yr un modd, nododd Feltham y gallai diffyg ystafelloedd fod yn rhwystr i ymyriadau, ac roedd Werrington yn poeni nad oedd y tîm iechyd meddwl yn aml yn gallu cwrdd â bechgyn wyneb yn wyneb.

Soniodd Wetherby a Feltham am rai gwelliannau mewn staffio gofal cymdeithasol drwy gydol y flwyddyn, a nodwyd bod y ddarpariaeth gofal cymdeithasol yn foddhaol

ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd Werrington yn poeni am brinder staff gofal cymdeithasol sylweddol drwy gydol y flwyddyn, yn enwedig yng nghyd-destun y penderfyniad (sydd bellach wedi'i wrthdroi) i gadw pobl ifanc 18 ac 19 oed yn yr ystad ieuenctid.[8] Tynnodd Wetherby a Feltham sylw at y ffaith bod oedi annerbyniol yn aml wrth gael y cymorth ariannol angenrheidiol i blant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol.

**Roedd amser plant allan o'r ystafell yn llawer rhy brin mewn STIau yn Lloegr**

Roedd yr amser yr oedd plant yn ei dreulio allan o'u hystafelloedd yn parhau i fod yn rhy isel ac anghyson o lawer, ac roedd yn bryder â blaenoriaeth i bob IMB STI yn Lloegr. Roedd yn arbennig o wael ar benwythnosau ac ar gyfer plant sydd wedi'u gwahanu. Yn Feltham, gallai rhai bechgyn dreulio hyd at 23 awr y dydd dan glo pan oedd lefelau staffio'n isel, fel ar benwythnosau ym mis Awst, ac yn Wetherby, gallai plant sydd wedi'u gwahanu dreulio hyd at 22 awr y dydd yn eu hystafelloedd. Dywedodd Werrington fod yr amser allan o'r ystafell wedi gostwng ymhellach ers y flwyddyn adrodd flaenorol. Tynnodd Werrington a Wetherby sylw at y rhwystredigaeth a brofodd pobl ifanc o ganlyniad i gyfundrefnau anrhagweladwy a chyfathrebu gwael am gansladau a newidiadau. Fodd bynnag, yn y Parc, lle'r oedd amser allan o'r ystafell eisoes yn well nag mewn STIau yn Lloegr, gwelwyd gwelliant yn yr amser allan o'r ystafell o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mynegodd Wetherby a Feltham bryderon hefyd ynghylch y ffordd y cofnodwyd data amser allan o'r ystafell. Yn Wetherby, nid oedd cofnodion bob amser fel petaent yn adlewyrchu'r hyn a welodd y Byrddau ar yr adeiniau. Yn Feltham, nid oedd data amser allan o'r ystafell ar gael yn rhwydd, ac nid oedd unrhyw dystiolaeth bod achosion o fechgyn yn cael llai na dwy awr o amser allan o'r ystafell yn cael eu nodi.

## 2.4 Addysg a hyfforddiant

**Roedd ansawdd ac amlder yr addysg a oedd ar gael yn wael ar y cyfan**

Roedd addysg i blant yn parhau i fod yn faes problemus, gyda sesiynau'n cael eu canslo’n rheolaidd (ar fyr rybudd yn aml) oherwydd prinder staff neu ddigwyddiadau difrifol, ac weithiau oherwydd ymddygiad gwael. Yn Feltham, canslwyd 1,991 awr o addysg yn ystod y cyfnod adrodd; yn Wetherby roedd y ffigur hwn yn 12,500.
Ym mis Rhagfyr 2023, asesodd Ofsted fod gwasanaeth addysg Wetherby 'Angen Gwella' ac, o ganlyniad, cafodd y darparwr hysbysiad i wella yn 2024. Cafodd gwasanaeth addysg Werrington sgôr Ofsted annigonol ym mis Awst 2023, ond canfuwyd ei fod wedi gwneud gwelliant rhesymol yn yr ymweliad dilynol ym mis Mai 2024. Disgrifiodd Feltham a Werrington ansawdd y gwasanaeth addysg, pan gafodd ei gyflwyno, fel rhywbeth a oedd yn amrywio'n fawr, o ragorol i wael. Yn y Parc, gwelwyd dirywiad yn ansawdd yr addysg yn hanner cyntaf y flwyddyn, ond cywirwyd y cwrs hwn yn llwyddiannus erbyn diwedd y flwyddyn. Lluniwyd y cwricwlwm newydd i helpu plant i ddatblygu'r sgiliau cymdeithasol sylfaenol sydd eu hangen yn y gweithle.

Yn ogystal, nododd IMB Werrington fethiannau sylweddol o ran cefnogi plentyn oedd yn addawol yn academaidd, ac a oedd yn dymuno astudio ar gyfer Safon Uwch. Roedd wedi colli ei gymhelliant gymaint oherwydd torri addewidion dro ar ôl

tro dros nifer o fisoedd, nes iddo ddweud wrth aelodau'r IMB ei fod yn teimlo nad oedd 'dim pwynt' gwneud rhagor o ymdrechion i wneud cynnydd. Rhannodd y Bwrdd eu pryderon am yr achos hwn, a materion eraill yn ymwneud â darpariaeth addysg, gyda Llywodraethwr a Chyfarwyddwr y Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa, a oedd yn barod i dderbyn bod angen newid. Ers hynny, mae'r darparwr addysg wedi cael Gorchymyn Gwella. Petai plentyn yn Werrington eisiau astudio i safon Safon Uwch nawr, mae'r Bwrdd yn hyderus y byddai cefnogaeth briodol ar gael.

Yn gyffredinol, roedd hyfforddiant galwedigaethol yn cael derbyniad da lle'r oedd ar gael, gyda Feltham yn disgrifio'r gweithdai sgiliau fel 'pocedi o ragoriaeth'. Fodd bynnag, nid oedd digon o leoedd i ddiwallu anghenion pobl ifanc; yn Feltham, dim ond 4-6 ar y tro y gallai'r gweithdai hyn eu cynnal, ac yn Wetherby nid oedd nifer o gyrsiau gweithdy'n gallu rhedeg oherwydd problemau recriwtio a oedd yn lleihau nifer y lleoedd a oedd ar gael. Nododd Werrington y diffyg amrywiaeth sydd ar gael, gan adrodd nad oedd pobl ifanc bob amser yn gallu dethol y llwybr o'u dewis.

## 2.5 Gwneud cynnydd tuag at drosglwyddo neu ryddhau

### Ailsefydlu

Yn gyffredinol, roedd y paratoadau ar gyfer trosglwyddo neu ryddhau yn cael eu gwneud yn dda gan y Sefydliad Troseddwyr Ifanc a, lle bo hynny'n berthnasol, y sefydliad derbyn. Fodd bynnag, roedd gan Wetherby a Feltham bryderon am y gofal y gellid ei ddarparu i'r rheini ar remand neu'r rheini sy'n bwrw dedfrydau hir iawn. Ar y llaw arall, gwelodd Werrington rywfaint o welliant yn y gwaith a wnaed gyda'r rheini a oedd yn bwrw dedfrydau hirach.

# 3. Canolfannau cadw mewnfudwyr

**Y prif ganfyddiadau**

- Cynyddodd y boblogaeth mewn canolfannau symud ymaith (IRCs), nid oedd canolfannau cadw wedi'u harfogi i ymateb i'r newidiadau demograffig ac, o ganlyniad, effeithiwyd yn andwyol ar ddiogelwch.
- Daeth canolfannau cadw mewnfudwyr gwrywaidd yn fwyfwy anniogel, a chynyddodd camddefnyddio sylweddau'n sylweddol ar draws yr ystad.
- Roedd nifer pryderus o bobl yn troi at hunan-niweidio, roedd ymdrechion i gyflawni hunanladdiad yn gyffredin, ac roedd trallod yn gyffredin.
- Roedd pobl fregus yn agored i niwed yn ddiangen.
- Roedd cynnydd yn y defnydd o rym, ac nid oedd egwyddorion defnyddio grym bob amser yn cael eu dilyn.
- Roedd prosesau ar gyfer adnabod pobl agored i niwed yn cael eu defnyddio'n anghyson.
- Nid oedd digon o hanfodion sylfaenol yn cael eu darparu mewn STHFs, gan gynnwys bwyd a dillad gwely.
- Roedd pobl yn cael eu cadw mewn lleoliadau a oedd yn methu darparu safonau llety dyngarol.
- Roedd pryderon difrifol am arferion wrth symud ymaith pobl a oedd yn agored iawn i niwed.
- Roedd cyfran bryderus o bobl sy'n cael eu cadw mewn IRCs wedi cael problemau iechyd meddwl acíwt a chymhleth, ac nid oedd canolfannau wedi'u harfogi i ddarparu'r gofal yr oedd ei angen arnynt.
- Roedd pobl a oedd yn cael eu cadw yn y rhan fwyaf o STHFs yn dal i gael eu hamddifadu o'u meddyginiaeth ar bresgripsiwn, gan roi eu hiechyd mewn perygl sylweddol.
- Roedd pobl yn cael eu cadw am gyfnodau eithriadol o hir, heb unrhyw obaith gwirioneddol o gael eu symud ymaith, ac roedd y cyfathrebu ar gynnydd achosion yn wael.
- Roedd pobl yn cael eu cadw fel mater o drefn mewn STHFs y tu hwnt i'r terfyn amser statudol, sef 24 awr.

## Newidiadau yn y boblogaeth

Cynyddodd poblogaeth y canolfannau cadw ac roedd newidiadau sylweddol i ddemograffeg y rhai a oedd yn cael eu cadw.

Roedd y cynnydd a'r newid yn y boblogaeth yn y canolfannau cadw mewnfudwyr, yn rhannol, o ganlyniad i'r argyfwng capasiti a oedd yn effeithio ar yr ystad carchardai. Parhaodd y Swyddfa Gartref i ddarparu cymorth i'r HMPPS i liniaru'r argyfwng capasiti carchardai drwy fesurau o'r enw Operation Safeguard. O dan Operation Safeguard, bu cynnydd sylweddol yn nifer y bobl a drosglwyddwyd o garchardai i ganolfannau cadw mewnfudwyr. Er mwyn hwyluso'r gostyngiad yn nifer y troseddwyr o dramor (FNOs) mewn carchardai, diwygiodd y Swyddfa Gartref y meini prawf asesu risg ar gyfer cadw mewnfudwyr. Arweiniodd hyn at fwy o achosion o drosglwyddo FNOs a oedd wedi'u treulio amser o dan glo, gan gynnwys y rheini a

oedd wedi'u cael yn euog o droseddau treisgar, troseddau rhywiol a'r rheini yr aseswyd eu bod yn peri risg sylweddol o niwed i blant.

Adroddodd yr IMBs yn y rhan fwyaf o IRCs bryderon nad oedd canolfannau cadw wedi'u harfogi'n ddigonol i ddelio â'r newidiadau hyn. Sylwodd y Byrddau ar gynnydd mewn trais a ffrygydau rhwng pobl sy'n cael eu cadw'n gaeth, gyda staff yn methu cynnal amgylchedd diogel, rhydd o anhrefn (fel yn Harmondsworth a Colnbrook). O ganlyniad i'r cynnydd o ran deiliadaeth IRCs, roedd mwy a mwy o bobl a oedd yn cael eu cadw'n gaeth yn rhannu ystafelloedd mewn rhai canolfannau, ac roedd gan ystafelloedd a oedd yn arfer cael eu defnyddio gan un person welyau bync wedi'u gosod. Roedd yn ymddangos bod y ffordd yr oedd y Swyddfa Gartref yn rheoli'r broses hon yn blaenoriaethu cyfyngiadau gweithredol dros ystyried a chynllunio anghenion pobl yn ddigonol. Cyn yr ehangu hwn, roedd IRCs wedi mynegi pryderon ynghylch digonolrwydd darpariaethau hanfodol, gan gynnwys capasiti gofal iechyd a phrosesau diogelu, i ddiwallu anghenion y boblogaeth, nad oedd y Swyddfa Gartref wedi llwyddo i'w datrys.

## 3.1 Diogelwch

**Daeth canolfannau cadw mewnfudwyr gwrywaidd yn fwyfwy anniogel, a chynyddodd camddefnyddio sylweddau'n sylweddol ar draws yr ystad**

Roedd trais yn digwydd yn aml mewn rhai canolfannau cadw dynion. Yn IRCs Harmondsworth a Colnbrook yn benodol, canfu'r Bwrdd fod ymosodiadau rhwng dynion sy'n cael eu cadw'n gaeth ac ymosodiadau ar staff, yn ogystal â defnyddio arfau byrfyfyr, yn effeithio ar ddiogelwch y canolfannau. Roedd diogelwch yn cael ei beryglu ymhellach gan y methiant i sicrhau bod dynion sy'n cael eu cadw'n gaeth yn cael eu diogelu mewn sefyllfaoedd argyfyngus. Er enghraifft, ar un achlysur, methodd staff â gwacáu dau ddyn a ganfuwyd yn ddiweddarach wedi'u cloi y tu mewn i'w hystafelloedd, a oedd yn codi pryderon sylweddol am weithdrefnau argyfwng.

Daeth cyffuriau anghyfreithlon, na chafwyd hyd iddynt yn aml mewn canolfannau cadw mewnfudwyr yn y gorffennol, yn gyffredin. Gallai hyn fod wedi cyfrannu at yr anhrefn, a chredir bod rhai digwyddiadau treisgar yn gysylltiedig â chyffuriau. Cafodd camddefnyddio sylweddau, gan gynnwys sylweddau seicoweithredol a synthetig, effaith ganlyniadol ar ofal iechyd, ac roedd angen ambiwlansys mewn rhai achosion. Yn IRC Brook House, credwyd bod delwyr wedi defnyddio dynion agored i niwed fel moch cwta i brofi'r sylweddau hyn, gydag un dyn angen gofal meddygol ar sawl achlysur o ganlyniad.

Roedd digwyddiadau difrifol yn achosi aflonyddwch yn aml drwy gydol y flwyddyn. Ar sawl achlysur, roedd rhwystredigaethau heb eu datrys yn troi'n brotestiadau wedi'u trefnu, fel dynion yn gwrthod dychwelyd i'w hystafelloedd neu ddringo arno i'r rhwydi, weithiau am oriau lawer. Roedd rhai achosion lle difrodwyd eiddo, defnyddiwyd grym, ac roedd angen mewnbwn gan y Grŵp Ymateb Tactegol Cenedlaethol. Roedd gwraidd y rhwystredigaeth hon, dywedwyd wrth yr IMBs, yn cynnwys cynnydd araf achosion mewnfudo, diffyg cyfathrebu gan y Swyddfa Gartref, hyd y cyfnod cadw ar gyfer y rheini a oedd eisiau gadael y wlad yn wirfoddol, materion gofal iechyd, a phryderon diogelwch. Ar un achlysur, fe wnaeth pobl a oedd yn cael eu cadw'n gaeth brotestio dros driniaeth dyn a oedd wedi marw yn y ddalfa.

**Roedd nifer pryderus o bobl yn troi at hunan-niweidio, roedd ymdrechion i gyflawni hunanladdiad yn gyffredin, ac roedd trallod yn gyffredin**

Roedd nifer cynyddol o bobl yn y ddalfa wedi troi at hunan-niweidio, rhai yn fynych. Roedd IMBs hefyd yn bryderus iawn am y cynnydd yn y niferoedd a oedd yn ceisio lladd eu hunain tra oeddent yn cael eu cadw’n gaeth, gan ddangos lefelau uchel o drallod ar draws ystad yr IRC. Yn ogystal ag arsylwi'r symptomau acíwt hyn o drallod, adroddodd IMBs mewn canolfannau cadw am gyfran uchel o'r bobl y buon nhw'n siarad â nhw yn cael trafferth gydag iechyd meddwl gwael a theimladau o iselder ers cyrraedd. Roedd IMBs yn teimlo bod gweld pobl sy'n cael eu cadw'n gaeth mewn trallod yn cael ei normaleiddio ymhlith staff, efallai o ganlyniad i hollbresenoldeb iechyd meddwl gwael ymysg y boblogaeth. Holodd y Byrddau a oedd digon yn cael ei wneud i ddeall, mynd i'r afael ac atal materion sy'n gwaethygu iechyd meddwl gwael a theimladau o drallod yn y ddalfa, ac a allai fod wedi cyfrannu at gyfraddau hunan-niweidio.

Defnyddiwyd cynlluniau gofal i reoli'r rhai y nodwyd eu bod mewn perygl o hunanladdiad neu hunan-niweidio. Fodd bynnag, roedd nifer y bobl yr oedd angen goruchwyliaeth gyson arnynt wedi cynyddu mewn rhai canolfannau, a oedd yn golygu bod angen adnoddau sylweddol. Roedd rhai adrannau gofal iechyd meddwl yn bryderus o brin o staff ac wedi'u gorlwytho gan lefel yr angen ar adegau, ac roedd rhai pobl a oedd yn cael eu cadw'n gaeth yn mynd heb y cymorth seicolegol yr oedd ei angen arnynt; nid oedd gwasanaethau cwnsela na therapi siarad ar gael i lawer o'r rheini y gallai fod wedi elwa arnynt. O ganlyniad, nid oedd modd diwallu anghenion llawer o'r rhai oedd yn profi trallod sylweddol, a dirywiodd iechyd meddwl rhai unigolion i'r fath raddau nes eu bod yn methu ag ymdopi ac wedi achosi niwed difrifol iddynt eu hunain a oedd wedi newid eu bywydau.

**Roedd pobl fregus yn agored i niwed yn ddiangen**

**Ysgrifennodd IMBs Gatwick a Heathrow at swyddogion y Swyddfa Gartref ym mis Mai 2024, gan uwchgyfeirio eu pryderon ynghylch y methiannau difrifol roeddent wedi'u gweld yn nyletswydd statudol y Swyddfa Gartref i amddiffyn pobl fregus rhag niwed**

Canfu'r IMBs nad oedd canolfannau cadw wedi'u harfogi'n ddigonol i reoli newidiadau yn y boblogaeth, a bod cynnydd yn nifer y bobl agored i niwed a oedd yn cael eu cadw yn datgelu methiannau systematig yn y mesurau diogelu a fwriadwyd i'w diogelu. Fel rhan o'r broses dderbyn mewn IRCs, mae'n ofyniad statudol bod yn rhaid i bawb sy'n cyrraedd sy'n cydsynio gael prawf sgrinio gofal iechyd o fewn 24 awr. Mae'r archwiliadau Rheol 34 hyn yn gweithredu fel mesur diogelu hanfodol i staff gofal iechyd allu nodi gwendidau cyn gynted â phosibl. Ar ben hynny, mae Rheol 35 yn mynnu bod ymarferwyr gofal iechyd yn adrodd yn ddi-oed (ar ôl yr archwiliad cychwynnol hwn neu ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod cadw unigolyn), achos unrhyw berson y mae ei iechyd yn debygol o gael ei niweidio gan ei gadw'n gaeth, y rheini yr amheuir bod ganddynt fwriadau hunanladdol, neu'r rheini a allai fod wedi dioddef artaith.

Fodd bynnag, sylwodd IMBs ar fethiannau yn y prosesau hyn pan oedd cyfran uwch o bobl agored i niwed yn cael eu cadw. Yng ngwanwyn 2024, cafwyd

methiannau eang o ran cydymffurfio ag amseroedd aros ar gyfer asesiadau Rheol 34 a Rheol 35. Canfu'r IMBs fod newydd-ddyfodiaid yn y ddalfa yn gorfod aros cyhyd ag 14 diwrnod am apwyntiadau Rheol 34 mewn rhai canolfannau. O ganlyniad, collwyd cyfleoedd cynnar i asesu anghenion unigol, a darparu gofal priodol. Ar yr un pryd, 19 diwrnod oedd yr amseroedd aros ar gyfer asesiad Rheol 35 yn y canolfannau hyn. Arweiniodd hyn at amser aros cyfun o 33 diwrnod i rai newydd-ddyfodiaid yn ystod y cyfnod hwn.

Fel proses weinyddol, dylid defnyddio cadw unigolion yn gaeth fel dewis olaf yn unig a dylai'r mesurau diogelu presennol weithio i ganfod pobl agored i niwed, adolygu priodoldeb eu cadw'n gaeth, eu hatal rhag niwed a rhoi gofal a chymorth priodol iddynt. Fodd bynnag, nodwyd methiannau systematig yn y mesurau diogelu hyn ar draws yr ystad gadw.

Os yw meddyg yr IRC o'r farn bod un neu fwy o'r meini prawf risg yn Rheol 35 yn berthnasol, rhaid iddo lenwi a chyflwyno adroddiad yn ddi-oed i'r Swyddfa Gartref. Yna, mae priodoldeb parhau i gadw'r unigolyn yn gaeth yn cael ei adolygu, gan ystyried asesiad y meddyg. Mae canllawiau'r Swyddfa Gartref yn glir bod rhagdybiaeth nad yw cadw'n gaeth yn briodol os yw person “mewn perygl”. Fodd bynnag, mae'r Swyddfa Gartref yn cydbwyso'r rhagdybiaeth hon ochr yn ochr â phwysau ystyriaethau rheoli mewnfudo ym mhob achos unigol.[9]

Fodd bynnag, roedd llawer o bobl wedi aros yn y ddalfa am fisoedd ar ôl i feddyg asesu y byddent mewn perygl o niwed o gael eu cadw'n gaeth, er bod y Swyddfa Gartref wedi penderfynu bod y risg o niwed yn drech nag ystyriaethau rheoli mewnfudo ac y dylid eu rhyddhau. Roedd hyn yn aml oherwydd diffyg llwybrau effeithiol at gymorth priodol iddynt.

**Roedd un IMB oedd yn monitro IRC i ddynion wedi codi pryderon difrifol ynghylch parhau i gadw unigolyn agored i niwed oedd mewn perygl yn gaeth**

Cyrhaeddodd Mr A y ddalfa ar ôl cael ei drosglwyddo i'r IRC mewn ambiwlans. Roedd ganddo nifer o gyflyrau meddygol ac iechyd meddwl, gan gynnwys parlys yr ymennydd, epilepsi, problemau symudedd ac anawsterau dysgu. Roedd cyfathrebu'n anodd i Mr A, hyd yn oed gyda siaradwyr brodorol o'i iaith gyntaf.

Cwblhawyd asesiad Rheol 35 yn fuan ar ôl iddo gyrraedd y ddalfa. Daeth y meddyg i'r casgliad bod cadw Mr A yn gaeth yn “niweidiol iawn i'w lesiant” a dywedodd wrth y Swyddfa Gartref ei bod yn “anniogel gofalu amdano yn y ganolfan gadw”. Gan nad oedd yn gallu byw ymysg y boblogaeth gyffredinol, arhosodd Mr A yn y cyfleuster gofal iechyd drwy gydol ei gyfnod yn y ddalfa, a oedd ar yr ail lawr. Arsylwodd yr IMB ymdrechion y staff, a wnaeth eu gorau i'w gefnogi, ond gan nad oedd Mr A yn gallu symud o gwmpas y cyfleuster heb gymorth, treuliodd y rhan fwyaf o'i amser wedi'i gyfyngu i un ystafell.

Roedd yr IMB yn bryderus iawn am lesiant Mr A. Holodd y Bwrdd pa mor briodol oedd ei gadw yn y sefydliad ac a oedd yn cael y gofal yr oedd arno ei angen mewn cyfarfodydd misol gyda rheolwyr y ganolfan. Effeithiwyd ar ei iechyd corfforol yn ystod ei gyfnod yn y ddalfa, ac fe gafodd ei dderbyn i'r ysbyty ar o leiaf un achlysur. Effeithiwyd yn andwyol ar iechyd meddwl Mr A hefyd; arsylwodd y Bwrdd arno

mewn trallod oherwydd ei sefyllfa ac eglurodd ei fod am ddychwelyd i'w wlad wreiddiol.

Yn y pen draw, cafodd ei gadw yn yr uned cleifion mewnol yn yr IRC am gyfnod o 10 mis rhwng 2023 a 2024, er iddo gael asesiad Rheol 35 yn ei fis cyntaf yno, gan nodi ei fod mewn perygl o niwed o gael ei gadw'n gaeth.

Ar draws yr ystad, gwelwyd prosesau aneffeithiol yn ystod cyfweliadau derbyn, sef y cyfle cyntaf i nodi pobl agored i niwed a chofnodi anghenion diogelu. Gwelwyd pobl sy'n cael eu cadw'n gaeth yn cael eu holi am unrhyw hanes o gam-fanteisio, cam-drin rhywiol neu gaethwasiaeth fodern mewn mannau nad ydynt yn breifat.

Mewn STHFs ledled y wlad, roedd prosesau ar gyfer cofnodi'r rheini y nodwyd eu bod yn agored i niwed yn cael eu defnyddio'n anghyson. Dywedodd yr IMBs nad oedd oedolion agored i niwed bob amser yn cael eu nodi mewn cofnodion cadw a bod materion diogelu'n cael eu cofnodi'n wael. Roedd gweithdrefnau ar gyfer nodi pobl agored i niwed yn cael eu camreoli ac nid oedd bob amser yn glir beth oedd cyfrifoldebau Llu'r Ffiniau a beth oedd cyfrifoldebau'r contractwyr sy'n rheoli STHFs, gan arwain at ddiffyg atebolrwydd.

Mewn un enghraifft, roedd yr IMB a oedd yn monitro STHFs yn y de a'r gorllewin yn poeni am driniaeth teulu o bump gyda phlant, a'r ieuengaf yn dair oed, oedd yn hawlio lloches. Cawsant eu cadw mewn Man Aros dan Reolaeth (CWA) am naw awr dros nos. Rhywbryd yn ystod y nos, awdurdodwyd caniatâd iddynt gael mynediad at gyfleusterau'r STHF, a fyddai wedi rhoi mynediad i'r teulu at fwy o amwynderau a'r cyfle i gael seibiant, ond methodd y staff â gweld yr hysbysiad.

Ar adeg newid shifft, cofnodwyd pryderon nad oedd y teulu wedi cael eu prosesu'n gywir ac roedd cofnodion pwysig, a fyddai wedi cofnodi eu gwendidau, ar goll, sydd â goblygiadau diogelu plant. Roedd yr IMB yn bryderus iawn am y methiannau o ran triniaeth y teulu hwn.

**Roedd cynnydd yn y defnydd o rym, ac nid oedd egwyddorion defnyddio grym bob amser yn cael eu dilyn**

Cynyddodd y defnydd o rym yn erbyn pobl sy'n cael eu cadw'n gaeth yn ystod 2024. Mewn rhai canolfannau cadw, defnyddiwyd grym mewn ymateb i anghydfodau a dywedwyd wrth Fyrddau bod y lefelau uwch, yn rhannol, oherwydd newidiadau yn nemograffeg poblogaeth yr IRC o dan Operation Safeguard. Roedd grym hefyd yn cael ei ddefnyddio'n aml i hwyluso symud carcharorion ymaith, ac ar rai adegau roedd yn cael ei ddefnyddio am gyfnodau hir, gan gynnwys ar bobl agored i niwed. Canfu'r Tîm Monitro Hediadau'r Siarter (CFMT) nad oedd y broses o wneud penderfyniadau a'r cofnodion sy'n ymwneud â defnyddio grym bob amser yn glir.

Roedd gan IMBs oedd yn monitro IRCs ac STHFs bryderon sylweddol ynghylch pa mor aml y defnyddiwyd grym. Er enghraifft, disgrifiodd Byrddau ar draws yr ystad 'ddull cyffredinol' o ddefnyddio gefynnau, y dylid eu defnyddio fel dewis olaf yn unig ac ar sail asesiad risg. Canfu IMB Gatwick fod bron i 100% o bobl a gafodd eu cludo i apwyntiadau ysbyty wedi cael eu rhoi mewn gefynnau, a dywedodd y ganolfan wrth y Bwrdd fod hynny'n cael ei ystyried yn angenrheidiol oherwydd goblygiadau Operation Safeguard ac un achos o ddianc. Mae'r esboniad hwn yn codi cwestiynau

difrifol am y broses asesu risg, ac a fabwysiadwyd dull eang o ddefnyddio grym gyda phobl sy'n cael eu cadw'n gaeth yn bennaf ar sail un achos. O ganlyniad, roedd rhai pobl yn amharod i fynd i'r ysbyty o ystyried y stigma sy'n gysylltiedig â chael eu rhoi mewn gefynnau, sy'n dangos y gallai'r arfer hwn gyfyngu ar fynediad at ofal iechyd i'r rheini sydd angen sylw meddygol.

Fe wnaeth yr IMBs a oedd yn monitro STHFs arsylwi ar y defnydd cyffredin o efynnau gan dimau hebrwng a oedd yn gyfrifol am gludo pobl o amgylch yr ystad gadw; roedd rhoi gefynnau ar bobl wrth drosglwyddo yn arfer safonol. Roedd y Bwrdd a oedd yn monitro'r STHF yn Sheffield Vulcan House wedi codi pryderon dro ar ôl tro ynghylch diogelwch y man llwytho cerbydau. Roedd pobl a oedd yn cael eu cadw'n gaeth yn cael eu hebrwng i faniau drwy ardal a oedd yn cael ei defnyddio i storio eitemau peryglus, y gallai rhywun eu defnyddio i niweidio ei hun neu eu defnyddio fel arf. I liniaru hyn, roedd pobl a oedd yn cael eu cadw'n gaeth yn cael eu rhoi mewn gefynnau fel mater o drefn, yn hytrach na datrys y broblem a sicrhau bod yr ardal yn ddiogel.

Yn ogystal â'r egwyddorion mai dim ond ar sail asesiad risg y dylid defnyddio grym, ac fel cam olaf, ni ddylid byth fygwth pobl sy'n cael eu cadw'n gaeth â grym fel ffordd o'u darbwyllo i gydymffurfio â dewisiadau gweithredol y Swyddfa Gartref. Fodd bynnag, bygythiwyd menywod gyda'r defnydd o efynnau os nad oeddent yn cytuno i drosglwyddiad o Yarl's Wood, yn Swydd Bedford, i Derwentside, ger Durham. Gan fod IRC Derwentside gannoedd o filltiroedd i ffwrdd o Yarl's Wood, byddai hyn yn golygu bod ymweliadau gan aelodau o'r teulu neu gynghorwyr cyfreithiol ar gyfer y rhan fwyaf o fenywod yn annhebygol iawn. Roedd IMB Yarl's Wood wedi cael sicrwydd blaenorol na fyddai grym yn cael ei ddefnyddio pe bai trosglwyddiadau am resymau gweinyddol neu weithredol. Serch hynny, dywedodd un aelod o staff wrth fenywod y byddai peidio â chydymffurfio â'r trosglwyddiad yn arwain at ddefnyddio gefynnau, rhywbeth sy'n gwbl annerbyniol ym marn yr IMBs.

**Roedd y defnydd o unedau gofal a gwahanu wedi cynyddu**

Roedd IMBs yn poeni am nifer y bobl a gafodd eu hatal rhag cysylltu â charcharorion arall, am faint o amser y cafodd rhai eu rhoi mewn unedau gofal a gwahanu (CSUs) ac, mewn rhai achosion, am y cyfiawnhad dros wneud hynny. Canfu Byrddau mewn IRCs i ddynion fod y defnydd o CSUs yn uchel drwy gydol y flwyddyn.

Roedd unigolion yn aml yn cael eu rhoi mewn CSUs am gyfnodau a oedd ymhell y tu hwnt i'r disgwyliadau amser a nodir mewn deddfwriaeth (dim mwy na 24 awr, er y gall yr Ysgrifennydd Gwladol ymestyn hyn i uchafswm o 14 diwrnod mewn amgylchiadau eithriadol).[10] Canfu IMBs fod awdurdodiadau 14 diwrnod rhai o'r rheini a oedd wedi'u gwahanu wedi cael eu hadnewyddu ac, o ganlyniad, roeddent wedi treulio wythnosau lawer mewn CSUs.

Roedd pobl â phroblemau iechyd meddwl cymhleth hefyd yn cael eu cadw mewn CSUs am gyfnodau hir oherwydd diffyg dulliau amgen a phriodol o ofalu amdanynt, a gan nad oeddent yn aml yn gallu ymdopi ymysg y boblogaeth gyffredinol. Mynegodd IMB Heathrow bryderon am wahanu dyn agored i niwed, a gafodd ei gadw yn y CSU am dros fis oherwydd ei gyflwr meddyliol, ac yn ystod y cyfnod hwnnw gwelodd y Bwrdd ddirywiad ymddangosiadol yn ei iechyd meddwl. Roedd dyn â phroblemau iechyd meddwl wedi'i gyfyngu i'r CSU yn IRC Yarl's Wood ac IRC Brook House am

gyfnod cyfun o naw wythnos cyn iddo gael ei drosglwyddo i ystad y carchar yn y pen draw, lle dywedwyd wrth yr IMB y gellid gofalu amdano'n fwy priodol. Roedd yn destun pryder i'r IMBs nad oedd canolfannau cadw wedi darparu amgylchedd addas i'r rheini ag anghenion cymhleth, gan eu cadw am gyfnodau hir mewn CSUs a arweiniodd, mewn llawer o achosion, at ddirywiad pellach.

Mae Rheolau'r Ganolfan Gadw yn caniatáu i berson sy'n cael ei gadw'n gaeth gael ei gadw ar wahân dan Reol 40 pan fydd hynny'n “ymddangos yn angenrheidiol am resymau cysylltiedig â diogelwch”. Fodd bynnag, wrth i boblogaeth canolfannau gynyddu, roedd y rhai a wrthododd rannu ystafell yn cael eu gwahanu yn gyson. Yn IRC Harmondsworth, roedd cyfnodau pan oedd pum cais Rheol 40 yn cael eu gwneud bob dydd am y rheswm hwn. Cyfiawnhad cyffredin arall dros ddefnyddio Rheol 40 oedd paratoi carcharorion ar gyfer y broses o symud ymaith at ddiben allgludo. Roedd staff cadw yn dweud yn aml wrth yr IMBs fod angen 'lleoli' pobl, gan eu hynysu oddi wrth y boblogaeth gyffredinol ddyddiau cyn eu hediad symud ymaith, gan fod asesiad wedi cael ei wneud y gallent geisio tarfu ar y broses gasglu. Roedd yr IMBs yn cwestiynu'n gyson yr arfer cyffredin o wahanu carcharorion sydd, yn ôl yr IMBs, yn anwybyddu'r egwyddor o wahanu carcharorion fel dewis olaf.

## 3.2 Triniaeth deg a dyngarol

### Methodd prosesau i reoli ehangiad yr ystad gadw â blaenoriaethu a chynllunio'n ddigonol ar gyfer anghenion y boblogaeth a gedwir yn gaeth

Ar ddechrau'r flwyddyn, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref y byddai Derwentside, IRC i fenywod, yn cael ei throi’n ganolfan gadw i ddynion er mwyn gallu ehangu'r ystad. Adroddodd yr IMB bryderon bod ffocws y rheolwyr yn symud oddi wrth y darpariaethau ar gyfer y menywod sy'n cael eu cadw yno, wrth i'r paratoadau ar gyfer troi’r IRC yn ganolfan gadw i ddynion gael eu blaenoriaethu, er na ddigwyddodd y newid yn y pen draw.

Ym mis Mai, dechreuodd yr IRCs dderbyn y rheini a oedd yn cael eu cadw ar ôl cael eu dynodi ar gyfer y posibilrwydd o'u hadleoli i Rwanda. Er bod IMB Gatwick wedi mynegi pryderon mor gynnar â mis Ionawr ynghylch lefelau'r paratoadau i gefnogi'r garfan hon, pan gyrhaeddodd yr unigolion yr IMB, nid oedd y gwasanaeth gofal iechyd yn gallu darparu archwiliadau statudol o fewn 24 awr iddynt gyrraedd. Dangoswyd diffyg paratoadau a dealltwriaeth y Swyddfa Gartref o'r hyn y byddai ei angen ar y grŵp hwn yn rhannol gan y ffaith mai dim ond yn Saesneg yr oedd y brif daflen wybodaeth am adleoli i Rwanda ar gael i gychwyn.

### Roedd pobl yn cael eu cadw mewn mannau heb fynediad at gyfleusterau digonol na phreifatrwydd o olwg y cyhoedd

Drwy gydol y flwyddyn, roedd prinder staff Llu'r Ffiniau, ymysg rhesymau eraill, wedi golygu bod llawer o bobl, gan gynnwys plant ifanc, yn cael eu cadw am oriau mewn CWAs, yn hytrach nag ystafelloedd aros y ddalfa. Fel arfer, nid yw CWAs yn cynnwys dim mwy nag ychydig o gadeiriau sydd wedi'u lleoli wrth ymyl yr ardal rheoli pasbortau, ac fe'u defnyddir i alluogi'r rheini sy'n aros i Lu'r Ffiniau gwblhau'r prosesau rheolaethau mewnfudo gael eistedd.

Roedd Care & Custody, contractwr a oedd yn rheoli rhai STHFs, wedi gwrthod

derbyn plant i ystafelloedd aros y ddalfa heb fod oedolyn yn bresennol. O ganlyniad, roedd plant ar eu pen eu hunain yn cael eu gadael yn agored i drem y cyhoedd am oriau lawer mewn CWAs, heb allu defnyddio'r cyfleusterau a oedd ar gael mewn ystafelloedd aros yn y ddalfa. Er bod yr IMBs wedi cael gwybod bod swyddogion Llu'r Ffiniau yn ceisio bod yn ystyrlon o unrhyw blant dan oed ar eu pen eu hunain yn y sefyllfa hon, nid oedd hynny'n rhoi sicrwydd i'r Byrddau bod plant yn cael cymorth digonol.

Yn Frontier House, STHF a ddefnyddir i brosesu pobl a nodir mewn lorïau neu lonydd cludo nwyddau ym mhorthladdoedd arfordir Caint, dim ond lle i gynefino un person ar y tro oedd ar gael. Gadawyd eraill yn aros mewn faniau y tu allan i'r cyfleuster, ac roedd staff yn cytuno â'r IMB bod hynny'n annerbyniol.

**Nid oedd digon o hanfodion sylfaenol yn cael eu darparu mewn STHFs, gan gynnwys bwyd a dillad gwely**

Roedd pobl yn cael eu cadw dros nos mewn lleoliadau heb gyfleusterau digonol. Roedd yn gyffredin i bobl gael eu gadael heb ddillad gwely, ac roedd llawer yn eistedd drwy'r nos ar gadeiriau plastig caled neu'n cysgu ar y llawr. Roedd y matresi a oedd ar gael mor denau fel bod pobl yn tueddu i fod angen defnyddio dau gyda'i gilydd.

Gan nad oeddent yn gallu bodloni gofynion yr Awdurdod Lleol, cafodd bwyd poeth ei dynnu'n ôl o bob STHF a reolir gan Lu'r Ffiniau ym mis Gorffennaf 2023. Gan fethu â datrys y broblem, roedd llawer o ystafelloedd aros y ddalfa dan reolaeth Llu'r Ffiniau yn dal i fethu darparu bwyd na diodydd poeth drwy gydol 2024. Roedd IMBs yn poeni'n benodol am y diffyg bwyd poeth i'r rheini sy'n cael eu cadw mewn porthladdoedd, lle gallai pobl fod wedi cyrraedd ar ôl teithiau hir a llafurus. Lle'r oedd bwyd poeth ar gael, nid oedd bob amser yn diwallu anghenion y rheini a oedd yn cael eu cadw, er enghraifft canfu IMBs nad oedd rhai lleoliadau'n cynnig opsiynau Halal.

**Roedd pobl yn cael eu cadw mewn lleoliadau a oedd yn methu darparu safonau llety dyngarol**

Roedd materion cynnal a chadw rheolaidd a pharhaus, a oedd yn aml yn mynd heb eu datrys am fisoedd lawer, yn effeithio ar bobl a oedd yn cael eu cadw mewn IRCs ac STHFs, ac mewn rhai achosion roeddent yn arwain at amodau byw cwbl annerbyniol. Gwaethygwyd yr oediadau oherwydd gwaith cynnal a chadw mewn STHFs mewn porthladdoedd a meysydd awyr, lle'r oedd nifer yr asiantaethau a oedd yn cyfrannu at y gwaith wedi creu prosesau gwneud penderfyniadau hirfaith.

Roedd rhai pobl a oedd yn cael eu cadw mewn STHFs yn agored i dymheredd annerbyniol. Ar un achlysur, bu'n rhaid symud teulu o bedwar a oedd yn cael eu cadw ym Maes Awyr Birmingham o ystafell aros y teulu ar ôl darganfod bod tymheredd yr ystafell yn 10.9 gradd Celsius. Yn IRC Heathrow, fe wnaeth nam yn y system awyru greu tymheredd uchel iawn ar adain breswyl ac ni ddarparwyd gwyntyllau i gadw pobl yn oer.

Yn IRC Tinsley House, arweiniodd problemau draenio parhaus at doiledau wedi'u blocio ac arogleuon budr yn yr ardal breswyl. Nododd yr IMB fod angen

buddsoddiad mawr i ddatrys y materion hyn yn barhaol. Yn ystod un ymweliad yn unig â Tinsley House, derbyniodd aelod 20 cais gan unigolion a oedd yn cael eu cadw yno am amodau byw a glendid yn y ganolfan, gan gynnwys gorfod mynd heb bapur toiled a sebon, diffyg llenni cawod a biniau sy'n gorlifo'n rheolaidd. Dywedodd dynion a oedd yn cael eu cadw yno wrth yr IMB fod ganddynt ormod o ofn gwneud cwynion ffurfiol i staff am amodau, gan ofni y byddai camau'n cael eu cymryd yn eu herbyn yn eu hachosion mewnfudo. Felly, cododd y Bwrdd y materion hyn ar ran pobl sy'n cael eu cadw'n gaeth ac, er bod rhywfaint o gamau wedi cael eu cymryd, roedd y ganolfan yn dal yn frwnt, yn drewi ac yn flêr.

**Methodd gwasanaethau cyfieithu a gwasanaethau cyfieithu ar y pryd â diwallu anghenion pobl sy'n cael eu cadw'n gaeth**

Roedd pobl a oedd yn cael eu cadw'n gaeth dan anfantais oherwydd diffyg gwasanaethau cyfieithu a gwasanaethau cyfieithu ar y pryd digonol, ac nid oedd rhai unigolion yn gallu cyfathrebu â staff na derbyn gwybodaeth ganddynt. Er enghraifft, mae effeithiolrwydd rhai mathau o gyfweliadau derbyn, lle bwriedir nodi gwendidau ac asesu risgiau, eu tanseilio'n sylweddol.

Mewn llawer o borthladdoedd a meysydd awyr, roedd y diffyg signal yn golygu nad oedd staff yn gallu cyfathrebu ag unrhyw un a oedd yn cael ei gadw yno nad oedd yn siarad Saesneg. Ar ben hynny, roedd rhai dyfeisiau cyfieithu wedi methu cyfieithu i bob iaith, felly nid oedd gan y rheini a oedd yn siarad ieithoedd fel Bengali unrhyw ffordd o siarad â staff. Mae'r diffyg dealltwriaeth hwn ynghylch yr hyn a oedd yn digwydd wrth gyrraedd y DU, er enghraifft eu bod yn cael eu cadw’n gaeth, yn debygol o fod wedi bod yn drallodus iawn i'r rhai yr effeithiwyd arnynt. Yn ogystal, roedd problemau parhaus o ran argaeledd a gweithrediad dyfeisiau cyfieithu mewn rhai IRCs, ac roedd cyfweliadau angenrheidiol ar gyfer symud achosion mewnfudo ymlaen weithiau'n cael eu canslo oherwydd diffyg cyfieithwyr.

Roedd IRCs yn aml yn gwneud asesiadau annibynadwy cyn y broses symud ymaith ar sail gallu unigolyn i ddeall Saesneg; yn rhy aml, tybiwyd y gallai person ddeall popeth a oedd yn cael ei ddweud wrthynt os oeddent yn gallu siarad ychydig o eiriau sylfaenol Saesneg. Yn ogystal, nid oedd cyfieithwyr proffesiynol ar gael yn gyson yn ystod gweithrediadau symud ymaith. Sylwodd aelodau'r IMB ar yr effaith negyddol a gafodd hyn ar y nifer o bobl y nodwyd bod angen cymorth iaith arnynt, yr oedd yn amlwg nad oeddent yn deall yr hyn a ddwedwyd wrthynt yn ystod y broses symud ymaith.

**Roedd pobl yn cael eu cadw mewn cerbydau am gyfnodau annerbyniol o hir**

Roedd y cynllunio gweithredol ar gyfer prosesau symud ymaith yn aml yn wael, ac roedd meysydd awyr a oedd gannoedd o filltiroedd i ffwrdd o'r rhan fwyaf o IRCs yn ne Lloegr yn cael eu defnyddio'n rheolaidd. Roedd yn gyffredin i'r rheini a oedd yn cael eu casglu o IRCs dreulio oriau ar fws ym maes parcio'r ganolfan gadw cyn cychwyn. Yn ogystal â theithiau hir, roedd enghreifftiau hefyd o faniau'n cyrraedd yn rhy gynnar ac yn treulio oriau wedi'u parcio y tu allan i feysydd awyr cyn gallu mynd i mewn. O ganlyniad, roedd yn gyffredin i bobl dreulio hyd at 12 awr mewn bws cyn cael eu symud o'r wlad.

Canfu gwaith monitro Byrddau mewn IRCs fod pobl yn aml yn cael eu trosglwyddo

neu'n cyrraedd canolfannau cadw yn ystod y nos. Ar rai adegau, cafodd cymaint â 50% o'r holl fenywod yn Derwentside eu trosglwyddo yn ystod y nos oherwydd prinder staff. Canfu IMBs fod unigolion a oedd yn cyrraedd yn ystod y nos ar ôl teithiau hir yn ddryslyd a bod y drefn yn achosi straen arbennig i fenywod, ac roedd yr arferion gorau ar gyfer asesu risgiau unigolion a nodi gwendidau neu anghenion yn llai tebygol o gael eu dilyn.

**Roedd pryderon difrifol am arferion wrth symud ymaith pobl a oedd yn agored iawn i niwed**

Wrth fonitro gweithrediadau symud ymaith unigolion ar hediadau siarter, cododd aelodau'r IMB bryderon difrifol am yr arfer o dynnu'r rheini sy'n cael eu cadw mewn cyfleusterau iechyd meddwl diogel yn uniongyrchol o'r ysbytai hyn. Ym mhob achos y rhoddwyd gwybod i'r CFMT amdanynt, roedd yr unigolion hyn wedi cael eu cadw yn yr ysbyty ar ôl cael eu hanfon yno o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Yma, cyflwynwyd gwaith papur cyfreithiol iddynt, nid gan swyddogion mewnfudo, ond gan staff yr ysbyty, ac ym mhob achos roedd unigolion yn ildio eu hawliau cyfreithiol yn y broses.

Fodd bynnag, nid oes gan staff gofal iechyd unrhyw ddealltwriaeth o brosesau mewnfudo cymhleth ac felly nid ydynt yn gallu egluro'r broses yn effeithiol i'w cleifion na sicrhau eu bod wedi'i deall. Mae'n destun pryder bod y dogfennau cyfreithiol hyn yn cael eu cyflwyno heb weithdrefn neu oruchwyliaeth briodol.

Mae Cadeirydd Cenedlaethol yr IMB wedi ysgrifennu at Gyfarwyddwr Dychweliadau ar gyfer Gorfodaeth Mewnfudo'r Swyddfa Gartref yn amlinellu canfyddiadau'r IMBs ac yn gofyn am sicrwydd ynghylch sut bydd y pryderon hyn yn cael sylw i sicrhau bod y broses o symud unigolion agored i niwed yn dryloyw, yn gyfreithlon ac yn dilyn y broses briodol. Mewn ymateb, rydym wedi cael gwybod y bydd yr arferion gweithredol, y canllawiau a'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â chyflwyno dogfennau mewnfudo i'r rheini sy'n cael eu cadw yn yr ysbyty yn cael eu hadolygu erbyn 31 Mai 2025, ac mae'r IMB yn aros yn eiddgar am ganlyniad hynny.

## 3.3 Iechyd a llesiant

**Roedd cyfran bryderus o bobl sy'n cael eu cadw'n gaeth mewn IRCs wedi cael problemau iechyd meddwl acíwt a chymhleth, ac nid oedd canolfannau wedi'u harfogi i ddarparu'r gofal yr oedd ei angen arnynt**

Roedd yn gyffredin i IMBs arsylwi ar y ffordd mae unigolion ag anghenion iechyd meddwl cymhleth ac acíwt yn cael eu cadw'n gaeth. Roedd rhai pobl mor sâl fel eu bod wedi cael eu hanfon i ysbyty'r meddwl o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Darparwyd gofal a chymorth gan staff nad oeddent, er gwaethaf eu hymdrechion gorau, yn gallu rheoli anghenion mor ddwys. Roedd yr IMBs yn cwestiynu absenoldeb ymarfer sy'n ystyriol o drawma ar gyfer cefnogi'r rheini sydd ag anghenion cymhleth, ac yn argymell bod yr holl staff mewn canolfannau cadw yn cael hyfforddiant cymorth cyntaf iechyd meddwl.

Roedd y gallu i ddarparu gofal priodol wedi'i gyfyngu ymhellach gan gyfathrebu gwael gan asiantaethau eraill, fel HMPPS. Drwy gydol y flwyddyn, cafodd pobl â phroblemau iechyd meddwl cymhleth eu trosglwyddo o'r carchar a gorsafoedd

heddlu, gan gyrraedd IRCs heb ddogfennau trosglwyddo na meddyginiaeth.

Ar ôl cyrraedd y ddalfa fewnfudo, treuliodd rhai fisoedd lawer yn aros i gael eu trosglwyddo i'r ysbyty, gan nad oedd nifer y gwelyau a ddyrannwyd i unigolion o ganolfannau cadw yn adlewyrchu lefel yr angen, nac yn cyd-fynd â'r cynnydd yn neiliadaeth y canolfannau. Roedd hyn yn golygu bod y rheini yr oedd angen gofal cleifion mewnol arnynt yn dal i gael eu cadw heb y driniaeth ofynnol.

Dywedodd IMB Gatwick fod ansawdd y gofal iechyd meddwl yn annigonol, roedd nyrsys yn ymddangos fel pe baent wedi'u gorlwytho a heb eu cefnogi'n ddigonol, ac nid oedd gan y tair rôl gofal iechyd uchaf neb parhaol ynddynt.

**Roedd pobl a oedd yn cael eu cadw’n gaeth yn y rhan fwyaf o STHFs yn dal i gael eu hamddifadu o'u meddyginiaeth ar bresgripsiwn, gan roi eu hiechyd mewn perygl sylweddol**

Mewn STHFs amhreswyl, mae polisi'r Swyddfa Gartref yn mynnu bod yn rhaid i bob meddyginiaeth, gan gynnwys meddyginiaeth ar bresgripsiwn, gael ei thynnu oddi ar bob person sy'n cael ei gadw’n gaeth. Nid oes gan swyddogion y ddalfa (DCOs) yr awdurdod i roi meddyginiaeth hyd yn oed pan fydd angen dos rheolaidd ar unigolyn ar adeg benodol. Nid oes gan y rhan fwyaf o STHFs ddarpariaeth benodol ar gyfer gofal iechyd ac, yn y cyfleusterau hyn, os oes angen meddyginiaeth ar berson, rhaid i staff gael cyngor meddygol yn gyntaf drwy wasanaethau ffôn y GIG neu gyfleusterau gwasanaethau brys eraill. Mae IMBs wedi canfod bod y broses hon yn aml yn golygu nad yw pobl sy'n cael eu cadw'n gaeth yn gallu cymryd eu meddyginiaeth ar bresgripsiwn, sy'n golygu eu bod mewn perygl o ddirywio'n feddygol.

Cododd IMBs bryderon yn gyntaf ynghylch diffyg mynediad pobl sy’n cael eu cadw’n gaeth at feddyginiaeth presgripsiwn mor bell yn ôl â 2017, ac maent wedi annog y swyddfa gartref yn barhaus i ymestyn gwasanaethau gofal iechyd i alluogi darpariaeth gofal iechyd hanfodol. O'r diwedd, mae'r Swyddfa Gartref wedi adrodd y bydd yn dyfarnu cais am ddarpariaeth meddyginiaeth yn 2026; yn y cyfamser, fodd bynnag, bydd y rheini sy'n cael eu cadw yn y rhan fwyaf o STHFs yn dal i gael eu hamddifadu o'u meddyginiaeth ar bresgripsiwn, gan roi eu hiechyd mewn perygl diangen.

## 3.4 Paratoi ar gyfer dychwelyd neu ryddhau

**Roedd cynnydd achosion yn araf ac roedd y cyfathrebu'n wael**

Roedd cyfran uwch o'r rheini a gafodd eu cadw’n gaeth mewn IRCs yn 2024 wedi cael eu trosglwyddo o'r ystad carchardai. I ormod o bobl, ni ddechreuodd unrhyw waith i fwrw ymlaen â'u hachos mewnfudo nes iddynt gyrraedd. Nid oedd y Swyddfa Gartref wedi defnyddio'r amser yr oeddent wedi'i dreulio yn y carchar yn effeithiol i wneud trefniadau i'w symud ymaith oddi yno, fel nodi pasbortau neu ddogfennau angenrheidiol eraill, a fyddai wedi cyflymu'r broses ac wedi atal cyfnodau hir a chostus o gadw mewnfudwyr yn gaeth. Gwelodd yr IMBs y trallod a achosodd hyn i droseddwyr o dramor a oedd wedi treulio amser o dan glo (TSFNOs), a ddisgrifiodd eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cosbi gyda dedfryd ddwbl.

Roedd llawer yn fodlon gadael y wlad o'u gwirfodd ond, oherwydd oediadau,

roeddent yn dal i gael eu cadw'n gaeth am gyfnodau estynedig. Mynegodd y rhai yr effeithiwyd arnynt rwystredigaeth ynghylch yr amser a gymerodd i fwrw ymlaen â'u hachosion. Dywedodd rhai wrth yr IMBs y byddent yn fodlon archebu eu hediad eu hunain, ond roedd polisi'r Swyddfa Gartref yn eu hatal rhag gwneud hynny. Roedd TSFNOs a lofnododd ffurflenni dychwelyd gwirfoddol tra oeddent yn y carchar hefyd yn gorfod aros misoedd cyn dychwelyd adref yn y pen draw.

Roedd cynnydd achosion araf yn gysylltiedig â chyfathrebu gwael. Heb wybodaeth am statws eu hachos mewnfudo, roedd y rheini a oedd yn cael eu cadw'n aml yn mynd yn fwyfwy pryderus. Yn 2024, cafodd y Cynllun Cyngor Dyletswydd Cadw a chyfreithwyr cymorth cyfreithiol yr opsiwn i gynnal apwyntiadau o bell; mae adborth i'r IMBs yn awgrymu bod hyn wedi rhoi'r rheini sy'n cael eu cadw'n gaeth ac sy'n ceisio llywio gwaith papur sy'n aml yn gymhleth ac wedi'i ysgrifennu yn Saesneg dan anfantais. Ar ben hynny, dywedodd llawer o bobl nad oeddent yn cyfathrebu llawer â'u swyddog ymgysylltu a'r gwasanaethau prawf. Roedd y rheini a lwyddodd i gael diweddariad yn aml yn dweud wrth yr IMBs eu bod yn cael trafferth deall yr wybodaeth a gawsant.

**Roedd pobl yn cael eu cadw'n gaeth am gyfnodau eithriadol o hir, heb unrhyw obaith gwirioneddol o gael eu symud ymaith**

Heb derfyn amser statudol ar gadw mewnfudwyr, sylwodd yr IMBs ar yr effaith a gafodd cadw unigolion yn gaeth am gyfnodau amhenodol ac estynedig o amser ar bobl. Cafodd llawer eu cadw mewn IRCs am dros flwyddyn ac, yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2024, cadwyd y nifer uchaf o bobl yn gaeth am dros chwe mis ers 2018. I fod yn gyfreithlon, fodd bynnag, dim ond pan fydd siawns realistig o symud ymaith o fewn cyfnod rhesymol y dylid cadw mewnfudwyr yn gaeth. Holodd yr IMBs a ellid ystyried bod yr amserlenni hyn yn rhesymol.

Roedd llawer o bobl yn dal i gael eu cadw'n gaeth am fisoedd ar ôl iddynt gael mechnïaeth oherwydd oedi wrth sicrhau neu gymeradwyo llety. Er enghraifft, adroddodd IMB Gatwick am ddau ddyn yn aros o leiaf dri mis ar ôl cael mechnïaeth cyn cael caniatâd i adael y ddalfa, gan dderbyn ychydig iawn o ddiweddariadau yn y cyfamser. Roedd yr effaith ar lesiant y rhai yr effeithiwyd arnynt yn peri pryder, gyda nifer o bobl yn dweud mai eu rheswm dros hunan-niweidio oedd y trallod a achoswyd gan oediadau yn eu hachos mewnfudo.

**Roedd pobl yn cael eu cadw fel mater o drefn mewn STHFs y tu hwnt i'r terfyn amser statudol, sef 24 awr**


Y terfyn amser statudol ar gyfer cadw unigolion yn gaeth mewn ystafelloedd cadw yw 24 awr, a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gellir mynd y tu hwnt i'r terfyn hwn, gydag awdurdodiad yr Ysgrifennydd Gwladol. Fodd bynnag, roedd pobl yn dal i gael eu cadw y tu hwnt i 24 awr. Roedd IMBs ar draws yr ystad yn poeni am hyd y cyfnod cadw mewn ystafelloedd bach heb ffenestri a heb fynediad at unrhyw awyr iach na golau naturiol.

# Atodiadau

## Atodiad 1: Ceisiadau

Gwnaed dros 30,400 o geisiadau i IMBs ar draws carchardai, STIau a'r ystad cadw mewnfudwyr (IDE) yn ystod 2024:[11]

**Graff 1: Rhaniad canran y ceisiadau a wnaed ar draws lleoliadau cadw'n gaeth yn ôl math o gategori[12]**




Roedd y nifer uchaf o geisiadau a wnaed mewn carchardai i oedolion yn ymwneud ag eiddo (H1, H2 a H3) ac iechyd (G), mewn STIau roedd hyn yn weithgarwch pwrpasol (D) ac ar draws canolfannau cadw mewnfudwyr, roedd hyn yn ymwneud â rheoli achosion (I).

**Allwedd**

| Cod | Pwnc (IRCs) | Pwnc (Carchardai ac STIau) |
|---|---|---|
| A | Llety gan gynnwys golchi dillad, cawodydd | Llety, gan gynnwys golchi dillad, dillad, ymolchi |
| B | Defnyddio grym, atal cysylltiad | Disgyblaeth, gan gynnwys dyfarniadau, cynllun cymhellion, sancsiynau |
| C | Cydraddoldeb | Cydraddoldeb |
| D | Gweithgarwch pwrpasol, gan gynnwys addysg, gwaith cyflogedig, hyfforddiant, llyfrgell, gweithgareddau eraill | Gweithgareddau pwrpasol, gan gynnwys addysg, gwaith, hyfforddiant, amser y tu allan i'r gell |
| E1 | Llythyrau, negeseuon ffacs, ymweliadau, ffonau, mynediad i'r rhyngrwyd | Llythyrau, ymweliadau, ffonau, diogelu'r cyhoedd, cyfyngiadau |
| E2 | Cyllid, gan gynnwys cyfrifon canolfannau pobl sy'n cael eu cadw'n gaeth | Cyllid, gan gynnwys tâl, arian preifat, gwariant |
| F | Bwyd a cheginau | Bwyd a cheginau |
| G | Iechyd, gan gynnwys iechyd corfforol, iechyd meddwl, gofal cymdeithasol | Iechyd, gan gynnwys iechyd corfforol, iechyd meddwl, gofal cymdeithasol |
| H1 | Eiddo yn y ganolfan | Eiddo yn y sefydliad |
| H2 | Eiddo yn ystod trosglwyddo, neu mewn sefydliad neu leoliad arall | Eiddo yn ystod trosglwyddo, neu mewn cyfleuster arall |
| H3 | Amherthnasol | Ffreutur, rhestr cyfleusterau, catalogau |
| I | Materion sy'n ymwneud ag achos mewnfudo pobl sy'n cael eu cadw'n gaeth, gan gynnwys mynediad at gyngor cyfreithiol | Rheoli dedfryd, gan gynnwys cyrffyw cyfyngu i'r cartref (HDC), rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL), dyddiadau rhyddhau, ail-gategoreiddio |
| J | Ymddygiad staff/pobl sy'n cael eu cadw'n gaeth, gan gynnwys bwlio | Pryderon staff/carcharorion, gan gynnwys bwlio |
| K | Hebryngwyr | Trosglwyddiadau |
| L | Arall | Amrywiol |

## Atodiad 2: Aelodaeth

Roedd **1,186** o aelodau yn eu swyddi ar draws **132** o Fyrddau ar 1 Ionawr 2025.

**Tabl 1: Aelodau mewn swyddi yn ôl rhanbarth**

| **Rhanbarthau** | **Aelodau mewn swyddi** |
|---|---|
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 102 |
| Dwyrain Lloegr | 114 |
| Caint, Surrey a Sussex | 92 |
| Llundain | 160 |
| Gogledd-ddwyrain Lloegr | 60 |
| Gogledd-orllewin Lloegr | 119 |
| De Canol Lloegr | 88 |
| De-orllewin Lloegr | 101 |
| Cymru | 40 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 97 |
| Swydd Efrog a Humber | 96 |
| IDE | 117 |
| ***Cyfanswm*** | ***1,186*** |

**Tabl 2: Aelodau mewn swyddi yn ôl lleoliad y ganolfan gadw**[13]

| **Lleoliad** | **Aelodau mewn swyddi** |
|---|---|
| **Carchardai** | **1,039** |
| Carchardai i ddynion | 923 |
| Carchardai i fenywod | 116 |
| **STIau** | **39** |
| **IDE** | **123** |
| IRCs | 48 |
| STHFs | 69 |
| Hediadau siarter | 6 |

**Tabl 3: Data ethnigrwydd yr aelodau cyfranogol**

Mae gwella amrywiaeth ethnig aelodau wedi cael ei nodi fel blaenoriaeth allweddol ar gyfer ymrwymiad yr IMBs i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'r data isod yn ymwneud â 73% o gyfanswm yr aelodau mewn swyddi. Nid oedd 27% o'r aelodau mewn swyddi wedi ymateb, neu roedd yn well ganddynt beidio â dweud.

| **Ethnigrwydd** | **Canran (%)** |
|---|---|
| Asiaidd | 4% |
| Du | 3% |
| Cymysg | 1% |
| Grŵp ethnig arall | 1% |
| Gwyn | 91% |
| ***Cyfanswm*** | ***100%*** |

## Nodiadau i Gloi

1 Fframwaith Monitro Cenedlaethol, Byrddau Monitro Annibynnol, cyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021.

2 Mae rhai o'r ffigurau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn yn wybodaeth reoli leol, ac efallai na fyddant yn alinio ag ystadegau swyddogol a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder neu'r Swyddfa Gartref.

3 Ffigur cenedlaethol (amcangyfrif) yn seiliedig ar ddata ymweliadau yr IMBs.

4 Mae SDS40 yn galluogi carcharorion cymwys sy'n bwrw dedfryd safonol bendant (gyda phwynt rhyddhau amodol o 50%) i gael eu rhyddhau ar ôl bwrw 40% o'u dedfryd. Mae rhai carcharorion, e.e. y rheini sydd wedi cael eu dedfrydu am droseddau rhywiol, wedi'u heithrio o'r cynllun. Mae SDS40 wedi bod ar waith ers 10 Medi 2024.

5 Breaking point: the impact of a crumbling prison estate on prisoners, IMB, 27 Tachwedd 2024.

6 Chaos in the crisis – the damaging loss of prisoners' personal property, IMB, 25 Medi 2024.

7 Segregation of men with mental health needs, IMB, 25 Ionawr 2024.

8 Rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Hydref 2024, newidiodd y llywodraeth bolisi pontio'r ystad ieuenctid i gynyddu'r oed y mae pobl ifanc yn cael eu trosglwyddo o ystad ddiogel y plant i'r ystad ddiogel i oedolion o 18 i 19, mewn ymateb i bwysau capasiti yn yr ystad carchardai oedolion.

9 Detention Services Order 08/2016 Management of adults at risk in immigration detention, Awst 2022.

10 Detention Centre Rules (2001), Part III, Rule 40.

11 Cyrchwyd y data o adroddiadau blynyddol a gyhoeddwyd yn 2024.

12 Mae'r graff hwn yn cynnwys ceisiadau personol (llafar) ac ysgrifenedig. Efallai bod rhai ceisiadau wedi cael eu dyrannu i fwy nag un math o gategori. Er enghraifft, gall un cais gwmpasu eiddo a llety, a bydd yn cael ei ddangos ddwywaith yn y graffiau hyn.

13 Mae rhai byrddau'n monitro dau sefydliad mewn gwahanol leoliadau, ac mae rhai aelodau yn cynrychioli dau Fwrdd (cyfeirir atynt fel 'aelodau bwrdd deuol'), a byddant yn cael eu cyfrif ddwywaith yn y tabl hwn.